# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** | **CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 10 EBRILL 2025 am 10:00 y. b.** | **THURSDAY 10 APRIL 2025 at 10:00 a.m** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR , SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, John Ifan Jones, Jackie Lewis, Llio A. Owen,
Alwen Watkin, Sonia Williams ***(Is-Gadeirydd/Vice-Chair***), Arfon Wyn

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Ieuan Williams

**LLAFUR CYMRU/ WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Douglas M. Fowlie ***(Cadeirydd/Chair)***, Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats*)*, R. Llewelyn Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

John Tierney (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Wenda Owen (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Gwag/Vacant (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor-Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2025.

3 **AROLYGIAETH GOFAL CYMRU: LLYTHYR GWIRIAD GWASANAETHAU OEDOLION YNYS MÔN A'R CYNLLUN GWEITHREDU - ADRODDIAD CYNNYDD** (Tudalennau 11 - 40)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

4 **CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 41 - 62)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

5 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 63 - 70)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithwir ar Zoom ar 11 Mawrth, 2025

**YN BRESENNOL:**

Cynghorydd Douglas Fowlie (Cadeirydd)
Cynghorydd Sonia Williams (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Geraint Bebb, Aled M. Jones, John Ifan Jones, R. Llewelyn Jones, Llio Owen, Keith Roberts, Ieuan Williams, Arfon Wyn.

Aelod Cyfetholedig: Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig)

**Aelodau Portffolio**

Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd), Neville Evans (Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid), Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid a Thai)

**WRTH LAW:**

Prif Weithredwr (ar gyfer eitemau 1 i 3)
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 (ar gyfer eitemau 1 i 4)
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 3)
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (HP)
Pennaeth Gwasanaethau Tai (NM)
Pennaeth Democratiaeth (DS)
Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (CE) (ar gyfer eitem 3)
Rheolwr Rhaglen Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad (GP) (ar gyfer eitem 3)
Rheolwr Sgriwtini (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)
Swyddog Gweddarlledu (FT)

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Jackie Lewis, Alwen Watkin, Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Mr Christian Branch (Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Amherthnasol

---



DRAFT

## 1 DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2025 a chadarnhawyd eu bod yn gywir ac amlinellwyd a nodwyd y cynnydd yn erbyn y camau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod.

## 3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 3 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid sy'n cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2024/25 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae’r cerdyn sgorio’n dangos sefyllfa’r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 3 yn erbyn yr amcanion strategol a amlinellir yng Nghynllun y Cyngor.

Cyflwynodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad a ddangosodd fod 87% o'r dangosyddion oedd â thargedau a gafodd eu monitro yn ystod y chwarter wedi perfformio'n dda yn erbyn y targedau hynny a bod eu statws yn Wyrdd neu Felyn. Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol sy'n adlewyrchu perfformiad cryf yn gyffredinol ar draws y Cyngor. Cyfeiriodd y Cynghorydd Carwyn Jones at y meysydd lle'r oedd perfformiad y Cyngor wedi gwella a/neu ragori ar y targed sef gwasanaethau Cymdeithasol, ysgolion - does yr un ysgol mewn categori dilynol / statudol Estyn, gwaith cynnal a chadw ymatebol, gosod unedau busnes y cyngor, cyflwr ffyrdd A, B a C a gofynion sgiliau Cymraeg wrth recriwtio. Tynnodd sylw hefyd at feysydd a nodwyd yn yr adroddiad fel rhai sydd angen eu gwella i gyrraedd eu targed. Roedd y rhain yn cael eu monitro gan y Tîm Arweinyddiaeth. Mae'r meysydd hynny'n ymwneud â nifer y plant sy'n cael gwersi nofio ar hyd y flwyddyn (Môn Actif), darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl - addasiadau mawr ac ail-osod unedau llety sy’n rhai y mae modd eu gosod yn y sector Tai, nifer y contractau angori, canrannau ailgylchu gwastraff ac ymatebion i geisiadau rhyddid gwybodaeth o fewn yr amserlen. Roedd yr adroddiad yn nodi'r cyd-destun i'r materion hynny ac yn amlinellu'r camau lliniaru a gynlluniwyd ac a weithredwyd.

Wrth adolygu adroddiad cerdyn sgorio corfforaethol Chwarter 3 cafodd y materion canlynol eu trafod gan y pwyllgor –

- Ydi'r Tîm Arweinyddiaeth yn gallu darparu sicrwydd bod ei fewnbwn a'i ymyrraeth mewn perthynas â meysydd sy'n tanberfformio yn llwyddiannus ac a ystyriwyd defnyddio gwahanol ddulliau i wella perfformiad fel Vanguard, Rheolaeth Lwyr ar Ansawdd (TQM) a gwelliant parhaus.

  Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod yn fodlon bod y dulliau a gymerwyd i ymdrin â meysydd sy’n tanberfformio yn briodol ac yn drylwyr. Mae’r Tîm Arweinyddiaeth yn adolygu adroddiadau’r cerdyn sgorio chwarterol drafft yn rheolaidd ac yn canolbwyntio ar feysydd lle nad yw'r canlyniadau'n cyrraedd y targedau a osodwyd a/neu lle mae'r duedd ar i lawr, gan gynnal trafodaethau gyda phenaethiaid gwasanaeth a rheolwyr i nodi unrhyw faterion sylfaenol a/neu amgylchiadau lliniarol a chytuno ar gamau cywiro. Yn achos rhai DP mae angen neilltuo adnoddau neu wneud newidiadau pellach sy'n cysylltu â chamau gweithredu yng Nghynllun y Cyngor ac yn digwydd ochr yn ochr â rheoli a monitro perfformiad. Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd yn credu bod y Cyngor mewn sefyllfa ariannol i gyflwyno systemau newydd ar draws y bwrdd a bod perygl yn y tymor byr y gallai trosglwyddo i system newydd darfu ac effeithio ar ddarparu gwasanaethau a pherfformiad, yn enwedig mewn meysydd gwasanaeth lle mae'r pwysau eisoes yn uchel. Serch hynny, gellid treialu dulliau eraill mewn ffordd fwy cyfyngedig i weld a ydynt yn



DRAFT

gwneud gwahaniaeth. At hyn, eglurodd y bydd DP a thargedau yn cael eu hadolygu ar ddiwedd Chwarter 4 i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn briodol wrth baratoi ar gyfer drafftio cerdyn sgorio 2025/26.

- Perfformiad Dangosydd Tai 03 – nifer cyfartalog y diwrnodau calendr i osod unedau llety sy’n rhai y mae modd eu gosod ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod sy'n Goch ar 47 diwrnod yn erbyn targed o 35 diwrnod. Holwyd i ba raddau y mae'r Gwasanaeth Tai yn hyderus y bydd y newidiadau a gyflwynwyd yn cael effaith ar leihau nifer y diwrnodau i ail-osod unedau a bu rhywfaint o drafod ynghylch p’un ai a yw’r targed o 35 diwrnod yn bosibl.

  Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid a Thai fod yn rhaid ystyried y perfformiad yn erbyn y targed yng nghyd-destun ehangach pwysau gwaith, cyflwr presennol eiddo – bod rhai angen gwaith atgyweirio mwy sylweddol a’i bod yn cymryd mwy o amser i'w hailosod, p’un ai a oes adnoddau ar gael, gweithwyr medrus a deunyddiau – mae’r rhain oll yn ffactorau sy’n gallu effeithio ar yr amserlen. Felly, efallai bod lle i ystyried p’un ai a yw'r targed yn realistig yn yr amgylchiadau hynny. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn deall bod trefniadau i edrych ar ddangosydd DP 03 i sicrhau ei fod yn effeithiol a/neu p’un ai a oes angen ei addasu ychydig.

- Tanberfformiad y Dangosydd Addysg 07 Môn Actif - nifer cyfartalog y plant sy'n cael gwersi nofio ar hyd y flwyddyn, sy’n Ambr ar 1,773 o'i gymharu â tharged o 1,900. Holwyd pa gamau sy'n cael eu cymryd gan y gwasanaeth i fynd i'r afael â'r targed a fethwyd.

  Rhoddodd y Cynghorydd Neville Evans, Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol sicrwydd bod y gwasanaeth yn adolygu data ynghylch ddefnydd yn rheolaidd ac yn casglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws y tair canolfan hamdden a chadarnhaodd fod Môn Actif yn marchnata ac yn rhoi cyhoeddusrwydd eang i’w weithgareddau. Gall pwysau costau byw yn ogystal â gweithgareddau eraill sydd ar gael fod yn ffactorau yn y gostyngiad yn y galw am wersi nofio. Yn ogystal â hyn, mae'r targed yn seiliedig ar wybodaeth hanesyddol ac efallai y bydd angen ei adolygu i sicrhau ei fod yn adlewyrchu gwir berfformiad. Dywedodd y Cynghorydd Neville Evans ei fod yn falch o allu dweud bod Môn Actif wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol am ei Raglen Nofio'n Ddiogel ac y byddai fideo newydd yn hyrwyddo nofio a phyllau'r Cyngor yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill.

- Trafodwyd y rhagolygon ar gyfer cyrraedd y targed o 70% ar gyfer canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio (Newid Hinsawdd DP 02) gyda statws y perfformiad presennol yn Goch ar 66.05%. Holwyd am drefniadau casglu wrth ymyl y palmant ac a oes angen adolygu'r rheini i'w gwneud hi'n haws i drigolion ailgylchu yn ogystal ag annog ailgylchu glân fel bod yr eitemau a gesglir heb eu halogi a’i bod yn haws eu gwerthu i gynhyrchu refeniw i'r Cyngor. Codwyd cwestiwn hefyd ynghylch y 48% o wastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio o adeiladau'r Cyngor a dywedwyd bod y perfformiad wedi aros yn ei unfan dros y tri chwarter diwethaf.

  Tynnodd y Cynghorydd Gary Pritchard, yr Arweinydd, sylw at y ffaith bod cyfraddau ailgylchu Ynys Môn yn uchel o'u cymharu â chyfraddau y DU a bod Llywodraeth Cymru wedi gosod targed ailgylchu heriol i gynghorau yng Nghymru. Mae’r Pwyllgor Gwaith yn awyddus i'w gyflawni ac mae wedi bod yn trafod y ffordd orau o wneud hynny yn ystod y misoedd diwethaf, gan gynnwys drwy dreialu newidiadau i finiau ailgylchu a chasglu cardbord mewn dwy ardal o'r Ynys. Mae rhai rhwystrau i'w goresgyn gan gynnwys nifer y llety gwyliau ar osod nad ydynt yn ailgylchu, o bosibl am nad ydynt yn gyfarwydd â’r drefn ailgylchu leol. Mae'r Pwyllgor Gwaith hefyd yn ymwybodol o ddwy ardal benodol ar yr ynys lle mae'n anodd pennu ffynhonnell y gwastraff oherwydd bod biniau gwastraff cyffredinol a blychau ailgylchu yn cael eu casglu a'u gwagio o un pwynt canolog gan ei gwneud hi'n anodd addysgu'r trigolion hynny nad ydynt yn ailgylchu. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi glasbrint

DRAFT

casglu ar gyfer sut mae'n dymuno gweld gwastraff cartref yn cael ei gasglu ledled Cymru a bod trefniadau Ynys Môn yn unol â'r glasbrint. Dywedodd hefyd fod gwella cyfraddau ailgylchu a sicrhau bod ailgylchu yn cael ei wneud yn iawn yn fater o atgoffa trigolion yn barhaus o bwysigrwydd a manteision ailgylchu, addysgu trigolion sut i wneud hynny'n gywir a sicrhau bod trigolion yn gefnogol i hyn. Mae'r Cyngor hefyd yn annog trigolion i roi adborth ac mae'n hapus i glywed eu syniadau ar gyfer gwella. Cadarnhaodd y Cynghorydd Gary Pritchard fod y Pwyllgor Gwaith wedi trafod ffyrdd y gellir addysgu plant a phobl ifanc mewn ysgolion am werth ailgylchu fel y gallant rannu'r neges gartref gyda'u teulu, yn ogystal ag integreiddio addysg ailgylchu i'r cwricwlwm newydd. At hyn dywedodd wrth y pwyllgor fod angen gwneud mwy o waith i wella cyfraddau ailgylchu ar draws adeiladau'r Cyngor gan gynnwys ysgolion, canolfannau hamdden a'r pencadlys ac mai dim ond ym mis Ebrill 2024 y daeth y ddeddfwriaeth sy'n gofyn am ailgylchu yn y gweithle i rym.

Ymatebodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo hefyd i fater penodol a godwyd gan aelod yn ymwneud â phroblemau a gododd wrth geisio ailgylchu tanc olew plastig a chadarnhaodd y byddai'n ymchwilio i'r mater. Dywedodd y Cynghorydd R. Llewelyn Jones ei fod yn awyddus i ddiolch i'r staff casglu ac ailgylchu gwastraff am eu gwaith ar hyd y flwyddyn ym mhob tywydd.

- Yr effaith ar gynhyrchu incwm yn sgil y perfformiad islaw'r targed o ran nifer yr angorfeydd blynyddol a werthwyd. Holwyd a yw hwn yn bryder hirdymor ac a yw'n dangos gostyngiad parhaol yn y galw.

  Eglurodd y Cynghorydd Neville Evans ei fod yn deall bod gostyngiad wedi bod yn y galw am gontractau angori yn gyffredinol drwy Ogledd Cymru yn ystod y tair blynedd diwethaf. Gall gwelliannau mewn angorfeydd eraill fod yn ffactor o ran y nifer a werthwyd ar Ynys Môn yn ogystal â gwahaniaethau yn y system a weithredir gan y Cyngor. Mae adolygiad manwl o'r gwasanaeth morwrol yn cael ei gynnal sy'n cynnwys lefelau ffioedd, prosesau casglu incwm a seilwaith. Yn ogystal â hyn, mae'r targed DP yn seiliedig ar wybodaeth hanesyddol ac mae angen ei adolygu hefyd.

- Trafodwyd y targed a fethwyd ar gyfer ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlen a holwyd faint o geisiadau a gafwyd, p'un ai a oedd cynnydd ac os felly a oedd unrhyw batrymau oedd yn amlwg i'r ceisiadau, a pham.

  Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fod y targed o 90% wedi'i osod gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'i fod yn heriol. Mae perfformiad y Cyngor yn erbyn y targed hwn dros y naw mlynedd diwethaf wedi amrywio o 67% i 80% fel yr adlewyrchir yn adroddiad blynyddol SIRO ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ymdrin â cheisiadau ynghylch Rhyddid Gwybodaeth gan dynnu sylw at y ffaith mai dim ond un swyddog gwybodaeth gorfforaethol sydd ar gael i gydlynu a chynghori ynghylch ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a bod y swydd hon wedi bod yn wag ers peth amser er gwaethaf ymdrechion i recriwtio. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith chwilio ac adolygu cofnodion sy'n gysylltiedig ag ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael ei wneud gan staff gwasanaethau yn ogystal â'u llwyth gwaith o ddydd i ddydd, sy'n gallu bod yn heriol, yn enwedig os yw'r cais am wybodaeth yn gymhleth ac yn cynnwys cyfres o gwestiynau. Mae tua 1,000 o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn dod i law bob blwyddyn gyda thua 6,500 o gwestiynau. O fis Ebrill, 2025 bydd y Cyngor yn defnyddio system CRM i'w helpu i reoli ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac er y bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws olrhain statws ceisiadau gan ddarparu gwybodaeth mewn amser real, ni fydd yn golygu bod mwy o adnoddau i allu ymateb iddynt. Mewn ymateb i gwestiynau pellach am geisiadau dienw, ceisiadau a wneir o dan enw ffug a cheisiadau sy'n bla / ailadroddus ac awgrym y dylid defnyddio'r system CRM newydd i dynnu'r wybodaeth benodol hon o'r system er budd y gwasanaeth, cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod ceisiadau o'r fath eisoes yn cael eu nodi. Esboniodd sut maent yn



DRAFT

delio â'r rhain gan gadarnhau y gellir gwrthod ceisiadau sy'n bla ac apelio i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac nad oes unrhyw ddyletswydd ar y Cyngor i ymateb i geisiadau dienw. Mewn achosion lle credir bod yr anfonwr wedi defnyddio enw ffug, gwneir cais i brofi pwy yw'r unigolyn.

- Trafodwyd y cymorth sydd ar gael i wella canran yr holl swyddi a hysbysebwyd gan y Cyngor fel rhai sy'n gofyn am lefel 4 ac uwch (34%) a'r ffaith nad oes targed.

  Dywedwyd wrth y pwyllgor fod pob swydd yn cael ei hasesu'n unigol ac yn wrthrychol a bod rheolwyr yn cael canllawiau ar sut i asesu sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd a bod ganddynt fynediad at gyngor arbenigol o fewn y Cyngor. Mae canllawiau'r Cyngor yn unol â Pholisi Cymraeg newydd y Cyngor a gellir cael canllawiau allanol hefyd drwy Gomisiynydd y Gymraeg. Mae sgiliau Cymraeg o fewn y Cyngor yn dda gyda chyfraddau uchel - lefelau 4 a 5. Cafodd y pwyllgor wybod hefyd am yr adnoddau sydd ar gael i staff wella eu sgiliau Cymraeg gan gynnwys cymorth tiwtoriaid a chysylltiad â'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg. Yn ogystal â hyn, mae 66% o staff wedi derbyn hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg. Cadarnhawyd, gan fod hwn yn DPA newydd ar y cerdyn sgorio, nad oedd unrhyw ddata blaenorol ar gael ar gyfer gosod targed.

  Awgrymodd yr Arweinydd y byddai'r aelodau yn dymuno ystyried p'un ai y byddai esboniad o'r hyn y mae pob un o'r lefelau sgiliau Cymraeg yn ei olygu yn eu helpu i asesu sefyllfa a chynnydd y Cyngor.

- Trafodwyd y sefyllfa mewn perthynas â gwefrwyr cerbydau trydan y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt a gofynnwyd pam nad yw'r seilwaith wedi datblygu dros y tri chwarter diwethaf.

  Cyfeiriodd y Cynghorydd Nicola Roberts, Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd at rai o'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor wrth fwrw ymlaen â'r seilwaith gan gynnwys cyllideb gyfyngedig a'r ffaith eu bod yn dibynnu ar gyllid grant. Mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i osgoi dyblygu pwyntiau gwefru EV preifat mewn ardaloedd lle mae'r rheini wedi'u gosod. Mae yna hefyd chwech ar hugain o bwyntiau gwefru y tu allan i adeiladau'r Cyngor a chartrefi gofal preswyl ac er bod cynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth mae'r Ynys yn cymharu'n gymharol dda o ran nifer y pwyntiau gwefru sydd ar gael. Cadarnhaodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod y Cyngor yn ceisio cydbwyso'r ddarpariaeth â'r galw gan ystyried y ddarpariaeth yn y sector preifat yn ogystal â'r costau parhaus o gynnal a chadw'r gorsafoedd gwefru ar ôl eu gosod. Er bod y ffocws yn 2024/25 wedi bod ar adeiladau'r Cyngor, bwriedir gosod pwyntiau gwefru pellach ar gyfer 2025/26 yn bennaf mewn ardaloedd arfordirol a llunio cytundeb prydlesu gyda'r darparwr allanol i rannu'r risg pe bai llai o ddefnydd ohonynt. Cadarnhaodd y Swyddog ymhellach fod y Cyngor yn monitro lle mae pwyntiau gwefru EV preifat wedi'u gosod rhag dyblygu'r ddarpariaeth ac eglurodd, er nad elw yw prif flaenoriaeth y Cyngor, ei fod yn ceisio sicrhau bod ei brisiau'n ddigonol i dalu costau ac i gynhyrchu digon o warged i dalu costau gorsafoedd gwefru mewn lleoliadau mwy gwledig lle gall y defnydd, ac felly'r refeniw, fod yn llai.

- Gofynnodd aelod am eglurhad ynghylch y Dangosydd Gofal Cymdeithasol a Lles (06) - y cyfnod cyfartalog ar gyfer yr holl blant sy'n dal i fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ddiwedd y chwarter. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sut mae'r Cyngor yn rheoli ac yn gweinyddu'r gofrestr a'i amcanion wrth geisio sicrhau nad yw plant yn aros ar y gofrestr am fwy o amser nag sydd ei angen. Cyfeiriodd at y gefnogaeth a ddarperir i blant ar y gofrestr ac i'w teuluoedd i wella eu hamgylchiadau ac i weithio tuag at dynnu plant oddi ar y gofrestr unwaith y bydd yr holl risgiau wedi'u datrys.

**Ar ôl adolygu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2024/25 ac yn dilyn trafodaeth lawn, penderfynwyd -**

- **Nodi adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2024/25 gan gynnwys y meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio ac yn**

DRAFT

**ymchwilio iddynt i reoli a sicrhau gwelliannau pellach i'r dyfodol. Roedd y rhain yn gysylltiedig â meysydd o dan Addysg (Môn Actif), Tai (darparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl – Addasiadau Mawr a Thai Gwag), yr Economi (Angorfeydd), Newid Hinsawdd (Ailgylchu Gwastraff) ac Iechyd y Cyngor Cyfan (ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ), ac**

- **Argymell adroddiad y cerdyn sgorio a'r mesurau lliniaru a amlinellir ynddo i'r Pwyllgor Gwaith.**

## 4 CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT) 2025-2055

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn cynnwys Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2025 i 2055 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae Cynllun Busnes y CRT yn nodi sut y bydd adnoddau yn cael eu gwario i gynnal, gwella a datblygu stoc tai'r Cyngor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai. Esboniodd ei bod yn ofynnol i gynghorau yng Nghymru sydd â Chyfrif Refeniw Tai (CRT) baratoi Cynllun Busnes y CRT i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn bod yn gymwys i gael Lwfans Atgyweiriadau Mawr. Mae'r Cynllun yn nodi strategaethau'r Cyngor ar gyfer cynnal a gwella ei stoc tai yn ogystal â dangos ei ymrwymiad i Safonau Ansawdd Tai Cymru 2 2023. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod llunio Cynllun hyfyw eleni wedi bod yn fwy heriol oherwydd nad yw incwm rhent wedi cynyddu cymaint â chostau ac nad yw bellach yn ddigon i dalu am yr holl wariant ar dai'r Cyngor sy'n deillio o ofynion SATC 2 2023 a chostau eraill.

Wrth gadarnhau y bydd y Cynllun a gyflwynir i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ddiwedd y mis yn cynnwys yr holl fanylion ariannol perthnasol, cyfeiriodd Pennaeth Gwasanaethau Tai at y prif bwyntiau yn y Cynllun o ran datblygu tai a buddsoddi mewn tai presennol, gan ddweud bod y Cyngor yn anelu at ddatblygu 1,400 o unedau ychwanegol gyda £252m o wariant ar y stoc tai presennol dros y cyfnod o 30 mlynedd. Dros bum mlynedd, bydd £38m yn cael ei wario ar waith trwsio ymatebol, bydd 225 o unedau ychwanegol yn cael eu datblygu gan gynnwys y ddarpariaeth gofal ychwanegol cynlluniedig ym Mhorthaethwy a bydd £49m yn cael ei wario ar uwchraddio'r stoc i gydymffurfio â SATC 2 2023. Bydd y lefel hon o wariant yn golygu benthyca £70m.

Yn dilyn, dyma'r prif bwyntiau a drafodwyd –

- Gwnaed awgrymiadau ynglŷn â chysylltu polisi tai cymdeithasol y Cyngor â'r Gymraeg ac yn benodol integreiddio'r iaith o fewn y diffiniad o "lleol" er mwyn diogelu a hyrwyddo'r iaith a'r cymunedau Cymraeg ar yr ynys.

  Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Tai fod cysylltiad ag Ynys Môn yn un o'r meini prawf cymhwyso ar gyfer tai cymdeithasol a nodir yn y polisi dyraniadau tai presennol sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fod wedi bod yn byw neu'n gyflogedig yn yr ardal am bum mlynedd. Byddai gan ymgeiswyr sydd â chysylltiad cymunedol flaenoriaeth dros y rhai heb unrhyw gysylltiad yn unol â'r polisi a byddai hynny'n helpu i warchod cymunedau. Dywedodd Aelod Portffolio Cyllid a Thai y byddai'n fodlon edrych ar unrhyw dystiolaeth fod cymunedau'n cael eu heffeithio o safbwynt iaith gan gymhwyso'r polisi dyrannu presennol.

- Y ffyrdd y mae Cynllun Busnes y CRT yn galluogi'r Cyngor i gyflawni blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023-2028

  Wrth osod targedau uchelgeisiol ar gyfer datblygu tai, dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd a phrynu'n ôl hen dai'r cyngor, esboniodd Aelod Portffolio Cyllid a Thai fod Cynllun Busnes y CRT yn ceisio cyflawni gweledigaeth Cynllun Tai'r Cyngor sy'n sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw yn rhywle gartref.

- Y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu rhaglen ehangu arfaethedig y Cyngor i gynyddu ei stoc tai a fforddiadwyedd y rhaglen.

  Cyfeiriodd Aelod Portffolio Cyllid a Thai at y ffaith fod costau cynyddol yn un o'r prif risgiau sy'n berthnasol i gaffael tir, deunyddiau adeiladu a llafur. Her arall yw cap Llywodraeth Cymru ar gynnydd rhent gyda'r cynnydd uchaf mewn rhent ar gyfer 2025/26 ar draws y stoc tai wedi'i osod ar 2.7% gan arwain at wahaniaeth cynyddol rhwng incwm rhent y Cyngor a'i anghenion o ran gwariant a chostau tai. Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Tai sicrwydd bod y risg yn cael ei liniaru gan yr asesiad o anghenion tai a gynhaliwyd yn ddiweddar sy'n nodi'r anghenion tai mewn gwahanol ardaloedd o'r ynys.

- Ydi'r Cyngor wedi ystyried prydlesu eiddo preifat gan/ar ran perchnogion eiddo, yn enwedig mewn achosion lle gallai person fod wedi caffael eiddo trwy berthynas ac nad yw mewn sefyllfa i'w adnewyddu, sy'n golygu bod yr eiddo yn wag ac o bosibl yn destun premiwm y Dreth Gyngor. Gwnaed awgrym hefyd ynglŷn ag ail-osod eiddo gwag - mewn achosion lle mae angen gwaith helaeth, dylai'r Cyngor anelu at sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau efo'i gilydd ar un adeg o fewn yr amserlen o 35 diwrnod yn hytrach na fesul tasg gan grefftwyr ar wahân.

  Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Cyngor yn un o'r awdurdodau sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Prydlesu Cymru sy'n galluogi perchnogion eiddo i wneud cais i brydlesu eu heiddo i'w hawdurdod lleol am rent penodol am hyd y brydles gyda grantiau ar gael i godi'r eiddo i'r safon briodol. Cadarnhaodd fod un ar bymtheg o eiddo o'r fath yn rhan o'r cynllun yn Ynys Môn a bod gwybodaeth am y cynllun ar gael ar wefan y Cyngor. O ran eiddo gwag, cadarnhaodd y Pennaeth Tai fod dau gontractwr wedi'u hychwanegu at fframwaith y contractwyr a fydd yn gallu adnewyddu ceginau ac ystafelloedd ymolchi mewn eiddo gwag lle bo angen yn ogystal â chyflawni'r gwaith hynny fel rhan o'r rhaglen SATC ac uwchraddio a gynlluniwyd.

  Awgrymwyd gan y pwyllgor bod angen cyhoeddi Cynllun Prydlesu Cymru yn ehangach fel bod cyfranogwyr posibl nad ydynt efallai'n ymwybodol ohono yn cael gwybod amdano. Awgrymwyd ymhellach y dylid cynnwys y cynllun hefyd fel pwnc mewn Sesiwn Briffio Aelodau i ddod ag ef i sylw'r holl aelodau.

- Oes modd cyflawni'r flaenoriaeth o weithio tuag at Safonau Ansawdd Tai Cymru 2 2023.

  Cadarnhaodd Aelod Portffolio Cyllid a Thai fod y Cyngor wedi ymrwymo i gyflawni SATC 2 2023 ac o ystyried yr heriau dan sylw, mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i hyn. Ail-ddywedodd yr Aelod Portffolio mai un o'r prif rwystrau yw'r cap rhent sy'n cyfyngu ar yr incwm y gall y Cyngor ei gynhyrchu o renti, sydd yn ei dro yn lleihau'r refeniw sydd ar gael i ariannu'r gwaith uwchraddio sydd eu hangen i fodloni'r SATC. Er nad oes unrhyw un eisiau cynyddu rhenti, dylai lefelau rhent adlewyrchu'r gwaith a wneir i wella'r eiddo. Mewn ymateb i gwestiynau pellach, eglurodd yr Aelod Portffolio y gallai prynu eiddo newydd ar ddatblygiadau gan gymdeithasau tai wneud mwy o synnwyr ariannol yn hytrach nag adnewyddu hen dai'r cyngor sy'n gofyn am waith sylweddol i'w codi i'r safon briodol.

  Cafwyd rhywfaint o drafodaeth yn y pwyllgor ynghylch a oes modd cyflawni SATC 2 2023 ac er eu bod yn derbyn eu bod wedi'u hanelu at wella ansawdd tai cymdeithasol, gofynnodd yr aelodau p'un ai a oedd y cynghorau hynny yng Nghymru sydd â'u stoc tai eu hunain wedi lleisio'u pryderon i Lywodraeth Cymru am yr heriau wrth geisio bodloni'r safonau. Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y neges y bydd yn anodd cyflawni SATC 2 2023, yn enwedig mewn perthynas â datgarboneiddio heb gymorth ychwanegol, wedi'i chyfleu i Lywodraeth Cymru drwy Benaethiaid Gwasanaethau Tai. Er mwyn atgyfnerthu'r neges, gofynnodd y pwyllgor i'r Aelod Portffolio ddefnyddio sianeli/rhwydweithiau gwleidyddol i bwyso ar Lywodraeth Cymru am ddeialog ar SATC 2 2023 i ystyried ffyrdd i sicrhau bod cydymffurfiaeth yn fwy realistig.

**Ar ôl adolygu a chraffu ar y dogfennau a nodi'r sicrwydd a ddarparwyd mewn ymateb i'r materion a godwyd, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell bod Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2025-2055 yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.**

**Camau ychwanegol –**

- **Gofyn i'r Gwasanaeth Tai ystyried ffyrdd o roi cyhoeddusrwydd i Gynllun Prydlesu Cymru yn ehangach er mwyn hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r cynllun gyda landlordiaid/perchnogion eiddo.**
- **Bod Cynllun Prydlesu Cymru yn cael ei gynnwys fel pwnc mewn Sesiwn Briffio Aelodau er mwyn dod â'r cynllun i sylw'r holl aelodau.**
- **Gofyn i Aelod Portffolio Cyllid a Thai ddefnyddio sianeli/rhwydweithiau gwleidyddol i bwyso ar Lywodraeth Cymru am ddeialog ar SATC 2 2023 i ystyried ffyrdd i sicrhau bod cydymffurfiaeth yn fwy realistig.**

**6 CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a oedd yn cynnwys Cynllun Strategol Perygl Llifogydd i'w ystyried gan y Pwyllgor, a chraffu arno.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Nicola Roberts, Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd ar ran y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a oedd wedi ymddiheuro am ei absenoldeb. Adroddodd fod gan y Cyngor fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ddyletswydd i ddatblygu, cynnal, cymhwyso a monitro strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol o dan Ddeddf Llifogydd a Dŵr 2010. Mae'r Cynllun Strategol Rheoli Perygl Llifogydd yn nodi uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn Ynys Môn am gyfnod o chwe blynedd, yn gyson â'r amcanion, y mesurau a'r polisïau a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, cododd y pwyllgor y materion canlynol –

- Ydi'r Cyngor wedi ystyried ffyrdd y gall gynnwys y cyhoedd yn well â'r broses ymgynghori.

  Esboniodd Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd fod yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal dros chwe wythnos a'i fod wedi defnyddio sawl sianel i sicrhau ei fod yn hygyrch gan gynnwys digwyddiadau galw heibio, e-bost, cyfryngau cymdeithasol, holiadur ar-lein a chyfweliad radio. Cadarnhaodd Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod y broses ymgynghori wedi'i chynnal yn unol â chanllawiau'r Cyngor sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i weld os ydyn nhw'n effeithiol. Mae'n bosibl fod pobl nad ydynt yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y pwnc yn llai tueddol o gymryd rhan.

- Y ffyrdd y mae'r Cynllun Strategol yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor a'i berthynas â Nodyn Cyngor Technegol Cynllunio 15 (Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol)

  Cyfeiriodd Pennaeth Gwastraff ac Eiddo Priffyrdd at y ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ddatblygu, cynnal, cymhwyso a monitro strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol sydd wedyn yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor o ran amcanion y Cyngor ar gyfer Newid Hinsawdd. Tynnodd Pennaeth Gwastraff ac Eiddo Priffyrdd sylw at y cyfeiriad yn y strategaeth at y Bwrdd Cymeradwyo SuDS sydd ar wahân i'r broses gynllunio ac yn sicrhau bod safleoedd datblygu arfaethedig yn addas o safbwynt rheoli llifogydd ar y safle ac o fewn y gymuned ehangach.

- Cyfeiriwyd at y sefyllfa yn Nwyran ac ym Mhorthaethwy ac at gynnydd a statws cynlluniau a gwaith yn yr ardaloedd hynny, cyfrifoldebau'r asiantaethau dan sylw ac a ddylid gwell ymdrechion i gyflymu pethau.

  Rhoddodd Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y sefyllfa yn y ddwy ardal benodol a chadarnhaodd fod gan y Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldebau gwahanol o ran rheoli perygl llifogydd a'u bod yn cydweithio i amddiffyn cymunedau rhag llifogydd. Cadarnhaodd y gall y Cyngor a Cyfoeth Naturiol Cymru wneud cais am gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith lliniaru llifogydd a chyfeiriodd at y ffactorau dan sylw. Hefyd esboniodd y gall fod mwy o her sicrhau bod achosion busnes ar gyfer cynlluniau mewn ardaloedd gwledig yn llwyddiannus o gymharu â rhai trefol oherwydd dwysedd uwch y boblogaeth yn yr olaf.

Er mwyn sicrhau bod y Cynllun Strategol yn gyflawn cynigwyd a chytunwyd y dylai hefyd gynnwys yr amserlen gynnal a chadw cynlluniedig yn ogystal â chopi o'r cynllun cyfalaf ar gyfer 2025/26 sy'n dangos y gwariant arfaethedig ar gynlluniau lliniaru llifogydd yn y flwyddyn ariannol nesaf.

**Ar ôl adolygu cwmpas a chynnwys y Cynllun Strategol Rheoli Llifogydd, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell bod y Cynllun yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, a'i fabwysiadu, gydag argymhelliad ychwanegol ei fod hefyd yn cynnwys yr amserlen gynnal a chadw gynlluniedig ynghyd â'r cynllun cyfalaf ar gyfer 2025/26 sy'n dangos gwariant arfaethedig ar gynlluniau lliniaru llifogydd yn y flwyddyn ariannol nesaf.**

## 7 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Ebrill, 2025 i'w ystyried.

**Cafodd ei ddatrys –**

- **Cytuno ar y fersiwn bresennol o'r Blaen Raglen Waith ar gyfer 2024/25.**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma wrth weithredu'r Blaen Raglen Waith.**

**Y Cynghorydd Douglas Fowlie**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Craffu

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Craffu Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 10/04/2025 |
| **Pwnc:** | Arolygiaeth Gofal Cymru: Llythyr Gwirio Gwella Gwasanaethau Oedolion a Chynllun Gweithredu – Adroddiad Cynnydd |
| **Cadeirydd Craffu:** | Y Cynghorydd Douglas Fowlie |

## 1. Pwy fydd deiliad y portffolio / swyddog arweiniol sy'n cyflwyno'r adroddiad?

| Enw | Rôl |
|---|---|
| Y Cynghorydd Alun Roberts | Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion |
| Arwel Owen | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Craffu ystyried y mater.

Ar gais y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn dilyn archwiliad Arolygaeth Gofal Cymru. Gofynnodd y Pwyllgor Craffu yn ei gyfarfod ar 16eg Hydref 2024 i swyddogion ddarparu adroddiad ffurfiol i'r Pwyllgor mewn 6 mis ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r rhaglen waith ôl-arolygu.

## 3. Rôl y Pwyllgor Craffu ac argymhellion

- ☐ Er gwybodaeth
- ☐ I'w nodi
- ☒ Er sicrwydd
- ☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith

Argymhelliad(ion):

**R1:** Gofynnir i'r pwyllgor adolygu a chraffu ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r rhaglen waith ôl-arolygu.



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Pwrpas y rheoleiddiwr annibynnol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yw:

1) cynnal swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru i ddarparu sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau.
2) penderfynu pwy all ddarparu gwasanaethau.
3) archwilio a gyrru gwelliant gwasanaethau rheoledig a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.
4) cynnal adolygiadau cenedlaethol o wasanaethau gofal cymdeithasol.
5) cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau yn bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoleiddio.
6) ymateb i bryderon a godwyd am wasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant.

Gall yr holl waith mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei wneud gael ei gysylltu'n uniongyrchol ag un o'r chwe amcan strategol yng **Nghynllun y Cyngor 2023-2028**.

**"Gofal cymdeithasol a lles: darparu'r gwasanaeth cywir ar yr adeg iawn".**

Cefnogir ymhellach gan y Meysydd Blaenoriaeth Allweddol a nodwyd yn y **Cynllun Moderneiddio Strategol Gwasanaethau i Oedolion:**

1. Cydweithio i fod yn Ynys Oed Gyfeillgar – trwy weithgaredd ataliol.
2. Trawsnewid Gweithgareddau Dydd – parhau gyda symudiad positif i gynnal Gweithgareddau Dydd mewn lleoliadau cymunedol .
3. Gwasanaethau Tai a Chefnogaeth (anableddau dysgu) - Uchafu a moderneiddio stoc 'Tai gyda Chefnogaeth' i sicrhau effeithiolrwydd.
4. Gwasanaeth Ysbaid (anabledd dysgu) – adnabod a datblygu darpariaeth newydd pwrpasol.
5. Tai Gofal Ychwanegol - datblygu tai gofal ychwanegol er mwyn cynyddu'r cyfleon i bobl fyw yn annibynnol yn eu cymunedau yn hirach.
6. Cartrefi Preswyl y Cyngor – cyfeirio adnoddau staff a chyllid i ddarpariaethau fforddiadwy a mwy cost effeithiol sy'n cwrdd ag anghenion.
7. Datblygu gwasanaeth ariannol gynaliadwy.

## 5. Themâu craffu allweddol

Themâu allweddol y dylai'r Pwyllgor Craffu ganolbwyntio arnynt:

1. Mae llawer o ofynion cynyddol ar Wasanaethau Oedolion, ac mae ymateb i'r holl ofynion yn her gyson o ystyried adnoddau cyfyngedig.
2. Mae pwysau a galw cynyddol e.e. yn ystod misoedd y gaeaf yn effeithio ar y gallu i ddarparu gwasanaethau.
3. Pa ffocws mae'r adran yn ei ddarparu ar wasanaethau ataliol.

4. Pa heriau fydd yn dod o newid demograffig.
5. A ellir cynnal y gwelliannau mewn proses a chofnodi yn ystod ac ar ôl newid system gyfrifiadurol cofnodi achosion y gwasanaethau cymdeithasol.

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**Cefndir:**

Cafodd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac Oedolion) eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 10-14 Hydref 2022 fel rhan o'u Harolygiad Adolygiad Gwerthuso Perfformiad (AGP) arferol.

Nododd yr adroddiad AGC feysydd cryfder, arfer da a datblygu gwasanaeth ac nid oedd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd o risg sylweddol na materion diogelu.

Cynhaliwyd yr ymweliad Gwiriad Gwella diweddaraf gan AGC rhwng 24$^{ain}$ a 26$^{ain}$ Mehefin 2024, gan ganolbwyntio ar y cynnydd a wnaed yn y meysydd a gafodd eu hadnabod ar gyfer gwella yn ystod AGP ym mis Hydref 2022.

**Mae'r Llythyr Gwella yn adrodd:**

***CRYNODEB - GWASANAETH OEDOLION***

1. Mae tîm arwain cryf yng ngwasanaethau oedolion Cyngor Sir Ynys Môn, sydd wedi cyflwyno newidiadau cadarnhaol a'u rhoi ar waith. Mae'r tîm arwain yn ymwybodol o feysydd y mae angen eu hatgyfnerthu ymhellach.

2. Mae'r ymarferwyr yn disgrifio aelodau'r tîm arwain fel unigolion gweladwy, hygyrch a chefnogol. Disgrifir hefyd ddiwylliant y gwasanaeth fel diwylliant iach a chadarnhaol, gyda pholisi drws agored yn cael ei hyrwyddo'n gyson.

3. Mae mwy o sefydlogrwydd yn y timau staff, ac ymhlith timau'r darparwyr cymorth cartref a chartrefi gofal. Mae hyn wedi arwain at wasanaeth gwell a mwy amserol i'r bobl.

4. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i elwa ar gymorth corfforaethol a gwleidyddol.

***Canfyddiadau a thystiolaeth allweddol***

Cyflwynir canfyddiadau allweddol ac enghreifftiau o dystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gofal Cymdeithasol a Lles Cymru 2014. *Sylwch nad oedd CIW wedi adolygu unrhyw feysydd o dan y bedwaredd egwyddor, Partneriaethau gan nad oedd unrhyw feysydd i'w gwella o dan y pennawd hwn yn PEI 2022.*

**POBL-**

***Cryfderau***

1. Mae'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau gwaith cymdeithasol wedi lleihau'n sylweddol. Mae trefniadau clir ar waith bellach ar gyfer monitro rhestrau o'r fath, gyda'r awdurdod lleol yn cysylltu â phobl sy'n aros i gael asesiad fel mater o drefn i holi ynghylch eu diogelwch a'u llesiant.

2. Mae'r rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau therapi galwedigaethol yn uchel o hyd. Fodd bynnag, mae'r trefniadau wrth y drws ffrynt wedi cael eu hatgyfnerthu yn ddiweddar

3. Ar y cyfan, mae'r prosesau ar gyfer cyfathrebu â phobl wedi gwella.

4. O ran cysylltu â'r gwasanaeth, dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (68%) i arolwg pobl a gyhoeddwyd gennym ei fod yn 'hawdd iawn' neu'n 'hawdd', gydag ychydig (18%) yn nodi nad yw'n ‘hawdd nac yn anodd', ac ychydig arall (14%) yn nodi ei fod yn 'ddim yn hawdd' neu'n 'anodd iawn'. Mae gwasanaethau drws ffrynt plant ac oedolion bellach wedi'u cydleoli, gan ddarparu mwy o wydnwch yng ngallu'r gwasanaeth i ymateb i bobl, sydd wedi cyfrannu at welliant yn safon a phrydlondeb cyfathrebu â phobl.

5. Mae canlyniadau ein harolwg hefyd yn dystiolaeth bod y rhan fwyaf o bobl yn fodlon â'r ffordd o gyfathrebu. Er enghraifft, dywedodd 96.5% o'r ymatebwyr eu bod yn cael eu trin ag urddas "bob amser" neu "y rhan fwyaf o'r amser", a dywedodd 89% eu bod yn teimlo eu bod wedi gwrando arnynt "bob amser" neu "y rhan fwyaf o'r amser."

6. Yn unol â'r Cynllun Darparu Gwasanaethau, mae'r gwasanaeth wedi ehangu ei adnoddau i hyrwyddo'r opsiwn taliadau uniongyrchol sy'n ymarfer cadarnhaol. Gwelwyd tystiolaeth bod taliadau uniongyrchol yn cael eu trafod â phobl fel opsiwn iddynt ei ddefnyddio i ddiwallu eu hanghenion cymwys. Mae nifer y bobl sy'n cael taliadau uniongyrchol wedi cynyddu.

***Meysydd i'w Gwella***

1. Mae tystiolaeth o lais a dewis pobl mewn asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth yn anghyson o hyd. Mae enghreifftiau da lle ceir cyfeiriadau amlwg at ddymuniadau, teimladau a chanlyniadau pobl. Mewn enghreifftiau eraill, mae llais a dewis unigolion yn gyfyngedig ac nid yw'n glir.

2. Mae enghreifftiau o wasanaeth eirioli yn cael ei gynnig yn briodol i bobl. Mae'n amlwg bod pobl yn cael budd o wasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol, gan gynnwys yng nghyd-destun materion diogelu. Fodd bynnag, nid yw'r ymarfer hwn yn gyson ac mae

enghreifftiau sy'n dangos bod cyfleoedd yn cael eu colli i drafod a fyddai pobl yn cael budd o gael eiriolwr, boed hynny'n ffurfiol neu'n anffurfiol.

3. Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i gefnogi gofalwyr di-dâl ac mae'n mynd ati i fonitro ei berfformiad o ran cynnig asesiadau i ofalwyr. Cafwyd cynnydd cadarnhaol yn nifer yr asesiadau a gynigir i ofalwyr. Mae cofnodion gofal cymdeithasol hefyd yn Nhudalen 6 o 12 cadarnhau bod gofalwyr yn cael cynnig asesiadau a'u bod yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion cymwys. Fodd bynnag, nid yw'r ymarfer hwn yn gyson, ac mae ansawdd asesiadau gofalwyr yn amrywiol.

4. Ni chaiff adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth pobl eu cynnal yn gyson o fewn y terfynau amser statudol gofynnol.

5. Cadarnhaodd ymarferwyr eu bod yn cael amser i fyfyrio ar eu hymarfer yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Fodd bynnag, o'r sampl o gofnodion goruchwylio ysgrifenedig a welwyd, dim ond cyfeiriadau cyfyngedig ac anghyson yr oeddent yn eu cynnwys at drafodaethau ynghylch ymarfer myfyriol, llesiant staff, anghenion datblygu a'r cynnydd a wnaed â phobl.

**ATAL**

***Cryfderau***

1. Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud buddsoddiadau cyfalaf sylweddol gan wella'r amrywiaeth o wasanaethau gofal a chymorth a'u hargaeledd. Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddi mewn safleoedd byw â chymorth anableddau dysgu newydd sy'n fwy addas i anghenion pobl nawr ac yn y dyfodol; a'r Ganolfan Dementia yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni, sydd wedi cael ei hadnewyddu.

2. Mae'r rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref wedi lleihau'n sylweddol, a cheir prosesau cadarnach ar gyfer goruchwylio sefyllfaoedd pobl sy'n aros am wasanaeth. O ganlyniad, mae mwy o bobl yn cael gofal a chymorth mwy amserol yn eu cartrefi eu hunain.

3. Mae un o'r Timau Adnoddau Cymunedol yn treialu prosiect bregusrwydd, gyda chefnogaeth y Gronfa Integreiddio Ranbarthol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar roi cymorth ymatebol wedi'i deilwra er mwyn atal achosion lle bydd pobl yn gorfod mynd i'r ysbyty.

***Meysydd i'w Gwella***

1. Mae heriau wrth ddarparu gofal seibiant byr addas, a lleoliadau arbenigol ar gyfer pobl ag anghenion nyrsio a dementia.

2. Mae enghreifftiau o bobl yn cael budd o dechnoleg gynorthwyol i hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u diogelwch. Fodd bynnag, mae enghreifftiau eraill lle nad oes unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi'i ystyried.

**LLESIANT**

***Cryfderau***

1. Mae ymarfer diogelu oedolion wedi gwella. Sefydlwyd grŵp ymarfer da ym maes diogelu sydd wedi ysgogi gwelliannau mewn perthynas ag ymarfer diogelu oedolion.

2. Caiff adroddiadau oedolion sy'n wynebu risg eu sgrinio'n briodol, a chynhelir ymholiadau mewn modd amserol yn unol ag a. 126 o Ddeddf 2014. Ymgynghorir yn briodol â phartneriaid perthnasol a chânt eu cynnwys ar gamau gwahanol o'r broses ddiogelu gan gynnwys yn ystod prosesau sgrinio, wrth ymgymryd ag ymholiadau ac yn ystod cyfarfodydd strategaeth.

3. Ystyrir pwy yw'r gweithiwr proffesiynol gorau i arwain yr ymholiad, gan ystyried pwy sy'n gyfarwydd i'r bobl a pharhad. Ceir ffocws ar hyrwyddo diogelwch yr oedolyn sy'n wynebu risg, ar sicrhau bod ei lais yn cael ei ystyried fel rhan ganolog o'r broses a bod rhesymeg glir pan gaiff ei lais a'i ddewisiadau eu diystyru. Caiff gwasanaeth eirioli annibynnol ffurfiol ei gomisiynu, gan sicrhau dull sy'n seiliedig ar hawliau.

4. Mae safon a chynnwys asesiadau o alluedd meddyliol wedi gwella gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer. Yn yr enghreifftiau gorau, defnyddir dulliau cyfathrebu priodol wedi'u teilwra at yr unigolyn, ac ystyrir pwy fyddai'r person gorau i gefnogi'r unigolyn, gan adlewyrchu dull sy'n canolbwyntio ar y person.

5. Cynhelir archwiliadau mewnol ar safon a chynnwys asesiadau o'r fath, gan nodi meysydd o ymarfer da a meysydd i'w cryfhau, gan ysgogi rhagor o welliannau.

**Cynnydd ers cyhoeddi'r Adroddiad**

Yn unol â gofynion, rydym wedi paratoi Cynllun Datblygu er mwyn monitro cynnydd a gwelliannau yn erbyn y meysydd a nodwyd gan AGC. Cyflwynwyd y cynllun datblygu hwn a'r adroddiad cysylltiedig i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol i'w gymeradwyo a rhoi sylwadau ar **16/10/2024.**

Ar ôl adolygu adroddiad a chynllun gweithredu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Oedolion a nodi ymatebion Swyddogion i'r pwyntiau trafod a godwyd, penderfynwyd-

- Bod y Pwyllgor wedi ystyried llythyr rhestr wirio Gwelliant Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Ynys Môn, a gyhoeddwyd ar 22 Awst 2024.

- Bod y Pwyllgor wedi cynnig sylwadau ar yr adroddiad ac wedi cadarnhau bod y cynllun datblygu, a ddrafftiwyd gan y Gwasanaeth yn adlewyrchu'r meysydd allweddol i'w gwella a'r ffordd orau o gynorthwyo i gefnogi gwaith y Gwasanaeth yn y dyfodol.

**Camau gweithredu ychwanegol-**

- **Swyddogion i ddarparu adroddiad ffurfiol i'r Pwyllgor ymhen 6 mis ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r rhaglen waith ôl-arolygu.**

Mae Atodiad 1 i'r adroddiad hwn yn cynnwys Cynllun Datblygu Gwasanaeth wedi'i ddiweddaru sy'n manylu ar y cynnydd a wnaed yn ystod y 6 mis diwethaf yn erbyn yr holl feysydd gwella a amlygwyd gan y CIW.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r cynnydd a wnaed ar yr 11 pwynt gweithredu ers yr adroddiad olaf i craffu yn Hydref 2024.

| Sgôr Lliw | 16/10/2024 | Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| Gwyrdd - gwaith wedi gorffen | 4 | 8 |
| Melyn - gwaith parhaus | 6 | 3* |
| Oren- angen rhagor o waith | 1 | 0 |
| Coch - gwaith heb gychwyn | 0 | 0 |

*Meysydd sydd angen monitro ac adolygiad cyson o waith ddydd i ddydd i gynnal cydymffurfiaeth.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Nid oes asesiad effaith cydraddoldeb wedi'i gwblhau. |

7.2. Effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Nid oes asesiad effaith cydraddoldeb wedi'i gwblhau. |

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| |
|---|
| Mae'r Adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.<br><br>Cynigiodd AGC ei arolygiad yn yr iaith o ddewis, a manteisiodd llawer o aelodau staff ar y cynnig gweithredol.<br><br>Mae ein hadrannau Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cynnig ein gwasanaethau yn yr iaith o'r dewis - cadarnhawyd hyn gan AGC. |

7.4. Sefydliad sero net erbyn 2030

| |
|---|
| D/b |

## 8. Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Mae'r Adran Oedolion wedi, ac yn wynebu heriau ariannol sylweddol. Mae'r galw am wasanaethau wedi cynyddu, a rhagwelir y bydd yn parhau i gynyddu oherwydd newidiadau demograffig fydd yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl hŷn sy'n byw ar yr Ynys. Mae hyn, ynghyd â chefndir economaidd heriol parhaus yn golygu bod disgwyl i gyllideb yr Adran fod dan straen sylweddol i'r dyfodol. Mae'r pwysau hwn dros y 9 mlynedd diwethaf yn amlwg yng nghyllideb y Cyngor. Bydd gwariant ar Wasanaethau Oedolion yn 2025/26 yn cyfrif am 22% o gyllideb y Cyngor, o'i gymharu â 16.5% yn 2016. Pe bai cyfran yr Adran o gyfanswm gwariant wedi aros ar 16.5%, byddai hyn yn golygu diffyg o £9 miliwn. |

## 9. Atodiadau

| |
|---|
| Atodiad 1 - Cynllun Datblygu Gwasanaeth<br><br>Atodiad 2 - 'Rhestr wirio Gwella Arolygiaeth Gofal Cymru wedi'i chyhoeddi ar 22 Awst 2024. |

**10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir.**

| |
|---|
| Awdur – Arwel Wyn Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |

**_ATODIAD 1 - ARCHWILIAD AGC - CYNLLUN GWEITHREDU – Wedi'i ddiwygio a'i ddiweddaru ym mis Mawrth 2025_**

| CYNLLUN GWEITHREDU - GWASANAETHAU OEDOLION | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ***POBL* 4.01-4.11** | ***GWEITHREDU/TASGAU*** | ***CYFRIFOLDEB*** | ***AMSERLEN*** | ***16/10/24*** | ***Mawrth 2025*** | ***Cynnydd, Camau Gweithredu a Sylwadau*** |
| **1** | **Mae asesiadau a chynllunio gofal a chymorth yn sicrhau bod lleisiau pobl a'r hyn sy'n bwysig iddynt yn cael ei gynrychioli'n gyson.** | Sicrhau bod llais defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gofnodi'n glir o fewn asesiadau. | Arweinydd Tîm / Gweithiwr Cymdeithasol | Parhaus | Parhaus | Parhaus | Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn cael eu hatgoffa mewn goruchwyliaeth reolaidd o'r angen i gofnodi 'llais pobl' yn eu hasesiad. Bydd y gwaith yn parhau i gynnal safonau recordio. Mae Arweinwyr Tîm yn monitro trwy broses sicrhau ansawdd. Mae ffurflenni asesu wedi'u haddasu i helpu i ddwyn sylw at lais yr unigolyn. |
| **2** | **Mae pobl yn cael eu hysbysu o'r penderfyniadau craidd sy'n cael eu gwneud amdanynt.** | Cofnod o gynnig o gefnogaeth eiriolaeth a chofnod o resymu dros wrthod. | Arweinydd Tîm | Parhaus | Parhaus | Parhaus | Mae recordio wedi gwella; Mae'r cyfartaledd wedi cynyddu o dan 30% i dros 65% yn y flwyddyn hyd at Chwefror 2025. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella cofnodi ymhellach a sicrhau cysondeb wrth ail godio. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | **Mae trefniadau ar gyfer monitro amseroedd aros yn cael eu cryfhau, a chofnodion yn cael eu gwneud yn unol â hynny.** | Cadarnhau trefniadau gyda disgwyliadau clir ac amseroedd ymateb/aros. Mabwysiadu a gweithredu'r Safonau Ymarfer Gwasanaeth Oedolion. | Uwch Reolwyr | Medi 2024 | Cwblhau | Cwblhau | Safonau ymarfer newydd wedi'u cymeradwyo a'u cyflwyno i'r holl staff trwy'r Gynhadledd Staff a thrwy oruchwyliaeth.<br>Mae cyswllt rheolaidd a ymgeiswyr sy'n aros am asesiad i adnabod unrhyw newid mewn amgylchiadau neu angen. |
| 4 | **Mae adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth yn cael eu cynnal mewn modd amserol.** | Sicrhau bod trefniadau i atgoffa staff o ddyddiad adolygu achos a mesur cydymffurfiaeth â gofyniad adolygu bob 12 mis.<br><br>Bod adolygiadau yn cael eu cofnodi mewn fformat priodol i ddefnyddwyr. | Rheolydd Data<br><br>Uwch Reolwyr | Ionawr 2024 | Parhaus | Parhaus | Cyflwynwyd trefniadau newydd i fonitro ac amlygu amserlen adolygu. Mae capasiti Gweithwyr Cymdeithasol yn cyfyngu y gallu i adolygu. Mae achosion newydd / brys yn cael eu blaenoriaethu dros achosion hirdymor sy'n sefydlog.<br><br>Mae perfformiad y gwasanaeth yn gyson, mae oddeutu 80% o gynlluniau gofal yn cael eu hadolygu yn flynyddol. |
| 5 | **Mae gofalwyr yn cael cynnig asesiadau yn gyson yn unol â dyletswyddau statudol.** | Sicrhau bod cynnig asesiad gofalwr yn cael ei gofnodi.<br><br>Sicrhau bod asesiad gofalwr yn cael ei ailgynnig yn rheolaidd | Uwch Reolwyr<br><br>Arweinwyr Tîm | Parhaus | Parhaus | Cwblhau | Cyflwynwyd ffurflen asesu gofalwyr wedi'i diweddaru. Mae hyn wedi gwella'r gallu i gofnodi a chadarnhau cynnig Asesiad Gofalwr.<br><br>Mae cydymffurfiaeth wedi bod yn uwch na'r targed o 93% am y 6 mis diwethaf, gyda 4 o'r misoedd yn 100%. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | e.e. yn ystod adolygiad neu pan fo newid. Sicrhau templed i staff i sicrhau cysondeb yn ansawdd asesiadau gofalwyr. | | | | | |
| 6 | **Mae taliadau uniongyrchol yn parhau i gael eu blaenoriaethu i sicrhau eu hygyrchedd i bobl.** | Sicrhau bod y cynnig o Daliad Uniongyrchol (a'r ymateb) yn cael ei gofnodi. | Rheolwr Busnes | Cwblhau | Cwblhau | Cwblhau | Ar adeg yr archwiliad yn roedd 232 o bobl yn derbyn Taliadau Uniongyrchol.<br><br>Yn Mawrth 2025 mae 261 o bobl yn derbyn Taliadau Uniongyrchol. |
| | | Trefnwch i'r fideo sy'n hyrwyddo ac yn esbonio'r cynllun gael ei ddosbarthu. | Swyddog Taliadau | Cwblhau | Cwblhau | Cwblhau | Mae fideo wedi eu gwblhau ac ar gael i'w dosbarthu i ddarpar ddefnyddwyr fel bo angen. |
| 7 | **Rhoddir digon o amser i staff fyfyrio ar ymarfer ac elwa o gyfarwyddyd gan aelodau staff mwy profiadol.** | Mabwysiadu polisi goruchwylio newydd.<br><br>i. Sicrhau bod goruchwyliaeth staff yn cael ei gofnodi ar ffurflen safonedig.<br>ii. Cynyddu pwyslais ar ymarfer myfyriol. | Uwch Reolwyr<br><br>Arweinwyr Tîm | <br><br>14/01/2025 | | Cwblhau | Polisi Goruchwylio newydd. Mabwysiadwyd ynghyd â ffurflenni a phrofformâu diwygiedig. Rhannwyd y rhain yng nghynhadledd staff ac maent yn cael eu defnyddio ers mis Ionawr 2025.<br><br>Mae staff yn cael eu goruchwylio yn rheolaidd ac mae cydymffurfiad yn cael ei fonitro. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | **Mae gan bobl gyfathrebu amserol a mynediad at staff.** | Sicrhau bod gwybodaeth gyswllt glir ar gael fel bod unigolion yn ymwybodol o sut y gallent gysylltu â staff. | Uwch Reolwyr | Hydref 2025 | | Cwblhau | System ffôn newydd wedi'i gyflwyno gan y Cyngor. Manteisiwyd ar y cyfle i ddiweddaru manylion cyswllt yr holl staff a hysbyswyd y staff am ddisgwyliadau ynghylch darparu manylion cyswllt i bobl yn dilyn ymweliadau. |
| | **ATAL 4.12-4.14** | ***GWEITHREDU/TASGAU*** | ***CYFRIFOLDEB*** | ***AMSERLEN*** | ***CYNNYDD*** | | |
| 9 | **Mae pobl yn derbyn y gofal a'r gefnogaeth gywir mewn modd amserol.** | Parhau i feithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda'r 3ydd sector i greu Ynys Oed-Gyfeillgar ac i wella mynediad at wasanaethau ataliol yn y gymuned. | Rheolwr Strategaeth Pobl Hŷn | Mawrth 2025 | Parhaus | Parhaus | Mae Canolfan Dementia yng Nghanolfan Glanhwfa yn cael ei datblygu. Mae Cynllun Nifty60s wedi cychwyn ar draws Ynys Môn, yn ogystal â chydweithio gyda rhwydwaith o hybiau cymunedol i ddarparu gweithgareddau iechyd a lles. Mae'r gweithgareddau yn annog annibyniaeth a heneiddio'n dda ac wedi'u cydnabod fel rhai blaengar. |
| | | Sicrhau adolygiad o restrau aros ar gyfer gwasanaethau dibreswyl. | | | | Cwblhau | Byddwn yn adolygu rhestrau aros yn rheolaidd i sicrhau nad yw anghenion yr unigolyn wedi newid. |
| | | Parhau i ddatblygu'r Prosiect Bregusrwydd. | | | | Parhaus | Mae prosiect Bregusder Caergybi bellach wedi'i sefydlu'n dda. Bwriedir ymestyn i CRT Amlwch / Benllech fel y datblygiad nesaf i'w weithredu. |

Tudalen 23

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Edrychwch ar opsiynau i ddarparu seibiant tymor byr yn agosach at gartref y person. | | | | Parhaus | Wedi'u gyrru gan anghenion unigol, mae pobl yn cael cynnig seibiant yn lleol gyda chydweithrediad Cynnal Gofalwyr a thrwy daliadau uniongyrchol. Bydd hwn yn parhau i fod yn faes ffocws yn seiliedig ar gyfleoedd ariannu. |
| | **LLESIANT 4.17-4.21 LLES** | ***GWEITHREDU/TASGAU*** | ***CYFRIFOLDEB*** | ***AMSERLEN*** | ***CYNNYDD*** | | |
| **10** | **Mae ansawdd a chyflawnrwydd arferion diogelu oedolion, gan gynnwys cadw cofnodion, yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru (GDC). Mae hyn yn cynnwys cofnodion clir o benderfyniadau ar ôl y sgrinio cychwynnol, yn ogystal â'r rhesymeg a'r penderfyniad ynghylch a oes** | Parhau gyda grŵp arfer da. | Rheolwr Diogelu | Cwblhau | | Cwblhau | Mae Arweinwyr Tîm a chydweithwyr Diogelu wedi cyfarfod i adolygu a chadarnhau trefniadau arfer da.<br><br>Rhwng 02/2024 - 02/2025 mae'r Adran Oedolion wedi derbyn 631 o adroddiadau diogelu, o'r rhain mae 236 wedi golygu ymholiadau diogelu. |
| | | Sicrhau trefniadau sgrinio cyfeiriadau cadarn. | | | | Cwblhau | Cyflwynwyd hyfforddiant i wella arferion sgrinio yn Teulu Môn. |
| | | Sicrhau bod ystyriaeth o'r person mwyaf priodol i arwain. | | Ar y gweill | | Cwblhau | Mae Cylchoedd Dysgu gydag Arweinwyr Tîm a Diogelu i atgyfnerthu'r potensial i ddirprwyo ymholiadau yn fewnol, i bartneriaid a sefydliadau eraill. |
| | | Bod amserlen o archwiliadau achlysurol i | | | | Parhaus | Un archwiliad wedi'i gwblhau gydag amserlen bellach o archwiliadau i'w |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **angen ymholiadau Adran 126 o Ddeddf 2014.** | fesur ansawdd gwaith cydymffurfio ac i rannu arfer gorau. | | | | | trefnu. Mae absenoldeb dros dro staff yn cyfyngu ar gyflwyno amserlen archwilio lawn. |
| **11** | **Mae ymarfer yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn gyson yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005).** | Bod trefn glir i ystyried yr angen am DGM.<br><br>Bod adolygiad o DGM yn digwydd i gynnal safon ac annog arfer da. | Rheolwr Diogelu | Archwiliad Chwarterol<br><br>Ar y gweill | Ar y gweill | Cwblhau | Archwiliad chwarterol yn cael ei gynnal i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal. |

***ARCHWILIAD WEDI CANOLBWYNTIO AR 11 MAES A AMLYGWYD YN YR ARCHWILIAD BLAENOROL. ELFENNAU PARTNERIAETH A NODWYD FEL DA AC HEB EU HYSTYRIED.***

| **TASGAU/CAMAU GWEITHREDU PENODOL** | | **Gweithred hyd yma** |
|---|---|---|
| 1. | Gwella trefniadau i adolygu **rhestr aros** a mecanwaith i ddiweddaru unigolion o'u statws a'u cynnydd. (4.1) | Mae pob unigolyn sy'n aros am asesiad wedi cael cyswllt i ddiweddaru ac adolygu a oes unrhyw newid mewn anghenion. |
| 2. | Bod atgyfeiriadau OT yn cael eu gwirio wrth y drws ffrynt trwy gael **staff Therapi Galwedigaethol** yn Teulu Môn a monitro rhestr aros Th.G. yn rheolaidd i sicrhau bod anghenion yn berthnasol ac i wirio unrhyw ddewisiadau amgen. (4.2) | Rota Therapi Galwedigaethol yn Teulu Môn a defnyddio hyfforddeion OT i leihau'r rhestr aros o fân addasiadau a chyfeirio. Mae Swyddog Anabledd wedi ymuno â'r Tîm Adnoddau Cymunedol i gynnal asesiadau lefel isel sy'n caniatáu i Th.G. ganolbwyntio ar achosion cymhleth. |

| | | |
|---|---|---|
| 3. | Cadarnhau pwyntiau/manylion cyswllt clir ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cysylltu a gadael negeseuon i staff. (4.4) | Mae system ffôn newydd a ffonau symudol wedi cael eu cyflwyno i staff ac mae staff wedi cael gwybod am y disgwyliadau wrth gyfathrebu â dinasyddion. |
| 4. | Bod gennym drefniadau i hysbysu unigolion am brosesau gwasanaeth (DP Fideo / Llawlyfr Cyllid Cleientiaid ac ati). (4.6) | Mae fideo hawdd ei ddefnyddio yn esbonio Taliadau Uniongyrchol wedi'i gynhyrchu. Mae'r Llawlyfr Cyllid Cleientiaid hefyd wedi'i ddiweddaru. Polisi diweddaru diwygiedig i'w lansio yn Ebrill 2025 |
| 5. | Bod **Safonau Ymarfer Gwasanaeth** yn cael eu mabwysiadu a'u lansio'n ffurfiol yn y Gynhadledd Staff. (4.4) | Lansiwyd Safonau Ymarfer Newydd a'u rhannu gyda staff trwy'r gynhadledd staff. Mae disgwyliad ymarfer yn cael ei gadarnhau yn ystod sesiynau goruchwylio ac mae gwell eglurder o ran rolau. |
| 6. | Sicrhewch fod cynnig Taliadau Uniongyrchol yn cael ei gofnodi a'i gofnodi ar ffeil. (4.6) | Mae'r ffurflen asesu wedi'i diwygio gan wneud cynnig Taliadau Uniongyrchol yn faes gorfodol. |
| 7. | Bod llais **a dewis** y defnyddiwr gwasanaeth / teulu/ yn cael ei glywed yn amlwg o fewn asesiadau. (4.7 | Cyflawnir hyn trwy oruchwyliaeth a thrwy Arweinwyr y Tîm yn ystod proses sicrhau ansawdd y panel. |
| 8. | Cadarnhau bod eiriolaeth yn cael ei gynnig yn briodol a'r rhesymau pam nad oes ei angen/gwrthod. (4.8) | Mae'r ffurflen asesu wedi'i ddiwygio gan wneud y cynnig gweithredol o gymorth eiriolaeth yn faes gorfodol. |
| 9. | Sicrhau bod **Asesiadau Gofalwyr** yn cael eu cynnig yn gyson trwy gyflwyno templed newydd i fodloni gofynion statudol. (4.9) | Mae'r cynnig o Asesiad Gofalwr hefyd wedi'i gynnwys fel maes gorfodol ar y ffurflen newydd. Mae ffurflen Asesu Gofalwyr hefyd wedi'i chreu i gynorthwyo a hwyluso'r broses. |
| 10. | Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod **adolygiadau** o gynlluniau gofal a chymorth yn cael eu cynnal yn gyson, ac o fewn amserlen statudol (12 mis) a bod adolygiadau yn y fformat mwyaf priodol ar gyfer unigolyn. (4.10) | Mae adolygiadau'n cael eu cynnal; fodd bynnag, nodir blaenoriaeth i achosion newydd ac achosion sy'n dod i'r amlwg oherwydd pwysau ar Weithwyr Cymdeithasol i hwyluso rhyddhau ysbytai a chefnogi unigolion yn y gymuned i atal derbyniadau i'r ysbyty. |

| | | |
|---|---|---|
| 11. | Mabwysiadu Polisi **Goruchwylio newydd** a dogfennaeth gyffredin i sicrhau bod goruchwyliaeth yn cael ei gofnodi'n gyson. (4.11) | Mae Polisi Goruchwylio newydd wedi'i gyflwyno a'i rannu gyda staff fel y model goruchwylio. Mae hyn wedi'i weithredu ers Ionawr 2025. Mae'r polisi yn rhoi mwy o ffocws ar arferion myfyriol ac yn sicrhau amser pwrpasol i fyfyrio ar achosion unigol. Mae dogfennaeth recordio profforma newydd yn annog cysondeb. |
| 12. | Adolygu darpariaeth **seibiant tymor byr** ac archwilio sut y gellid darparu gwasanaethau o'r fath mor agos at gartref â phosibl. (4.15) | Er bod rhai unigolion yn derbyn seibiant dros nos, mae cyfleoedd yn parhau yn heriol oherwydd argaeledd gwelyau cyfyngedig a pharodrwydd cartrefi i gymryd preswylwyr tymor byr.<br>Defnyddir Taliadau Uniongyrchol hefyd i ddarparu cyfleoedd seibiant. Byddwn yn parhau i fynd ar drywydd cyfleoedd o fewn ein dyraniad ariannol. |
| 13. | Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i allu pobl i elwa o wasanaethau ataliol gan gynnwys **technoleg gynorthwyol.** (4.16) | Mae'r Adran yn archwilio ffyrdd y gallwn ddefnyddio AI yn y dyfodol i gefnogi datblygiadau. Erbyn diwedd Chwefror roedd dros 85% o dderbynwyr Teleofal wedi trosglwyddo o analog i ddigidol. |
| 14. | Parhau gyda'r **Grŵp Diogelu Arfer Da** a sicrhau ei fod yn cwrdd yn rheolaidd. (4.17) | Mae Arweinwyr Tîm a chydweithwyr Diogelu wedi cyfarfod i adolygu a chadarnhau trefniadau arfer da. |
| 15. | Sicrhau bod cynlluniau strategol a gweithredol yn cefnogi arferion gweithredol wrth ddiogelu. | Mae Arweinwyr Tîm a chydweithwyr diogelu yn cwrdd yn rheolaidd i sicrhau safonau ymarfer a chysondeb yn ymarferol. |
| 16. | Sicrhau sgrinio digonol **o adroddiadau oedolion mewn perygl** a bod ystyriaeth yn cael ei wneud o’r gweithiwr proffesiynol gorau, a llais yr oedolyn sydd mewn perygl. (4.19) | Mae hyfforddiant wedi'i gynnal i ailddatgan y broses sgrinio yn Teulu Môn i gynyddu hyder staff. |
| 17. | Sicrhau bod yr angen am DGM yn cael ei ystyried a'i gofnodi yn gyson. (4.20) | Mae gallu meddyliol yn faes gorfodol o fewn y ffurflenni asesu newydd. Mae adolygiad o asesiad Galluedd Meddyliol hefyd wedi'i gynnal gyda chanlyniad cadarnhaol. |

| | | |
|---|---|---|
| 18. | Cynnal archwiliadau gwasanaeth **rheolaidd** i rannu arfer da a sicrhau cydymffurfiaeth â disgwyliadau gwasanaeth. (4.21) | Mae archwiliadau gwasanaeth wedi cael eu cynnal i atgyfnerthu arfer da a meysydd gwella. Bydd archwiliadau pellach yn cael eu cynnal pan fydd staff yn dychwelyd o absenoldeb mamolaeth. |

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Fôn Roberts,
Cyngor Sir Ynys Môn

Ein cyf / Our ref:

Dyddiad / Date:

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Ymweliad Gwiriad Gwella â Chyngor Sir Ynys Môn – gwasanaethau oedolion**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau'r ymweliad Gwiriad Gwella â gwasanaethau oedolion (y gwasanaeth), Cyngor Sir Ynys Môn rhwng 24 a 26 o Fehefin 2024. Roedd hwn yn dilyn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Hydref 2022.

## 1. Cyflwyniad

Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014); llinellau ymholi allweddol; a'r safonau ansawdd yn y *Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur a chynnal gwelliannau i bobl ac o fewn gwasanaethau.

1.2 Canolbwyntiodd y Gwiriad Gwella ar y cynnydd a wnaed yn y meysydd y nodwyd bod angen eu gwella yn ystod ein Harolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Hydref 2022.

| Egwyddor | Meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Hydref 2022. | Cynnydd a nodwyd yn ystod y gwiriad gwella ym mis Mehefin 2024. |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Pobl | Mae'r asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth yn sicrhau bod lleisiau pobl a'r hyn sy'n bwysig iddynt yn cael eu cynrychioli'n gyson | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud: angen cymryd camau pellach. |
| | Caiff pobl eu hysbysu am y penderfyniadau craidd a wneir amdanynt | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud: angen cymryd camau pellach. |
| | Caiff trefniadau ar gyfer monitro amseroedd aros eu hatgyfnerthu, a chaiff cofnodion eu cymryd yn unol â hynny | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |
| | Caiff adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth eu cynnal mewn modd amserol | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud: angen cymryd camau pellach. |
| | Cynigir asesiadau i ofalwyr yn gyson yn unol â dyletswyddau statudol | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud: angen cymryd camau pellach. |
| | Caiff taliadau uniongyrchol eu blaenoriaethu o hyd er mwyn sicrhau eu bod ar gael yn hwylus i bobl | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |
| | Rhoddir digon o amser i'r staff fyfyrio ar eu hymarfer a chânt gyfarwyddyd buddiol gan aelodau mwy profiadol o'r staff | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud: angen cymryd camau pellach. |
| | Mae'r staff yn cyfathrebu â phobl mewn modd amserol a gall y bobl gysylltu â nhw | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Atal | Mae pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir mewn modd amserol. | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud: angen cymryd camau pellach. |
| Llesiant | Mae ansawdd a chyflawnrwydd ymarfer diogelu oedolion, gan gynnwys y broses ar gyfer cadw cofnodion, yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae hyn yn cynnwys llunio cofnodion clir o benderfyniadau ar ôl y broses sgrinio gychwynnol, ynghyd â'r rhesymeg a'r penderfyniad o ran a oes angen ymholiadau Adran 126 o dan Ddeddf 2014. | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |
| | Mae'r ymarfer sydd ar waith yn cyflawni'r dyletswyddau statudol yn gyson yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005). | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |

## 2. Rhestr Terminoleg

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad 1.

## 3. Crynodeb - Gwasanaethau Oedolion

3.1 Mae tîm arwain cryf yng ngwasanaethau oedolion Cyngor Sir Ynys Môn, sydd wedi cyflwyno newidiadau cadarnhaol a'u rhoi ar waith. Mae'r tîm arwain yn ymwybodol o feysydd y mae angen eu hatgyfnerthu ymhellach. Mae nhw wedi gweithio'n galed i bennu cyfeiriad clir ar gyfer newid, gan lunio dogfennau strategol a gweithredol perthnasol, gyda chefnogaeth ymarferwyr cymwys ac ymroddedig, er mwyn rhoi'r newidiadau gofynnol ar waith yn ymarferol.

3.2 Mae'r ymarferwyr yn disgrifio aelodau'r tîm arwain fel unigolion gweladwy, hygyrch a chefnogol. Disgrifir hefyd ddiwylliant y gwasanaeth fel diwylliant iach a chadarnhaol, gyda pholisi drws agored yn cael ei hyrwyddo'n gyson. Mae'r arweinwyr yr un mor gadarnhaol ynghylch ymarfer ac ymrwymiad yr ymarferwyr.

3.3 Mae mwy o sefydlogrwydd yn y timau staff, ac ymhlith timau'r darparwyr cymorth cartref a chartrefi gofal. Mae hyn wedi arwain at wasanaeth gwell a mwy amserol i'r bobl, a hynny ar adeg lle y cafwyd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau a chynnydd o ran cymhlethdod anghenion pobl.

3.4 Mae'r gwasanaeth wedi parhau i elwa ar gymorth corfforaethol a gwleidyddol. Mae'n hanfodol bod hyn yn parhau, er mwyn sicrhau bod y cynnydd a wneir yn cael ei gynnal, a bod y meysydd y mae angen eu gwella ymhellach yn cael cefnogaeth ac adnoddau digonol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn gyson.

## 4.0 Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Cyflwynir canfyddiadau allweddol ac enghreifftiau o dystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf 2014.

### Pobl

**Cryfderau**

4.1 Mae'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau gwaith cymdeithasol wedi lleihau'n sylweddol. Mae trefniadau clir ar waith bellach ar gyfer monitro rhestrau o'r fath, gyda'r awdurdod lleol yn cysylltu â phobl sy'n aros i gael asesiad fel mater o drefn i holi ynghylch eu diogelwch a'u llesiant.

4.2 Mae'r rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau therapi galwedigaethol yn uchel o hyd. Fodd bynnag, mae'r trefniadau wrth y drws ffrynt wedi cael eu hatgyfnerthu yn ddiweddar. Mae Therapydd Galwedigaethol bellach yn craffu ar atgyfeiriadau ac yn eu goruchwylio'n fanylach. Rhoddir ystyriaeth i gadarnhau a yw'r atgyfeiriad wedi'i wneud i'r gwasanaeth cywir, neu a fyddai math arall o wybodaeth, cyngor neu gymorth o bosibl yn fwy priodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir mewn modd mwy amserol, pan fydd yr ymarfer wedi'i roi ar waith yn llawn.

4.3 Ar y cyfan, mae'r prosesau ar gyfer cyfathrebu â phobl wedi gwella. Ceir enghreifftiau o wybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol â phobl, gan gynnwys diweddariadau cynnydd am wasanaethau, cyfarpar a newidiadau o ran gweithwyr allweddol.

4.4 O ran cysylltu â'r gwasanaeth, nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr (68%) i arolwg pobl a gyhoeddwyd ei fod yn 'hawdd iawn' neu'n 'hawdd', gyda nifer bach (18%) yn nodi 'ddim yn hawdd nac yn anodd', a nifer bach o ymatebwyr eraill (14%) yn nodi ei fod 'ddim yn hawdd' neu'n 'anodd iawn'. Mae'r gwasanaethau drws ffrynt i blant ac oedolion bellach wedi cael eu cydleoli, gan gynnig mwy o gydnerthedd o ran gallu'r gwasanaeth i ymateb i bobl, sydd wedi cyfrannu at wella safon ac amseroldeb y broses o gyfathrebu â phobl. Mae'r sylwadau cyffredinol ynghylch cysylltu â'r awdurdod lleol yn gadarnhaol. Mae'r safonau ymarfer a luniwyd ac a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer y gwasanaeth, y cyfrannodd y staff atynt, yn esbonio'r disgwyliad o ran y terfynau amser ar gyfer ymateb i bobl. Gallai hyn lywio gwelliannau pellach mewn perthynas ag amseroldeb a safon y broses gyfathrebu.

4.5 Dangosodd canlyniadau ein harolwg hefyd fod y rhan fwyaf o bobl yn fodlon ar y broses gyfathrebu. Er enghraifft, nododd 96.5% o'r ymatebwyr eu bod yn cael eu trin ag urddas "bob amser" neu "y rhan fwyaf o'r amser", a dywedodd 89% eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt "bob amser" neu "y rhan fwyaf o'r amser."

4.6 **Yn unol â'r Cynllun Darparu Gwasanaethau, mae'r gwasanaeth wedi ehangu ei adnoddau i hyrwyddo'r opsiwn taliadau uniongyrchol sy'n ymarfer cadarnhaol.** Gwelwyd tystiolaeth bod taliadau uniongyrchol yn cael eu trafod â phobl fel opsiwn iddynt ei ddefnyddio i ddiwallu eu hanghenion cymwys. Mae nifer y bobl sy'n cael taliadau uniongyrchol wedi cynyddu. Soniodd un gofalwr y siaradwyd ag ef am fanteision taliadau uniongyrchol iddo. Mae wedi gallu nodi a dewis unigolyn y mae'n gyfarwydd ag ef i'w gefnogi ar adeg addas ac mewn lleoliad addas er mwyn diwallu anghenion y person sy'n derbyn gofal a'r gofalwr.

**Meysydd i'w Gwella**

4.7 Mae tystiolaeth o lais a dewis pobl mewn asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth yn anghyson o hyd. Mae enghreifftiau da lle ceir cyfeiriadau amlwg at ddymuniadau, teimladau a chanlyniadau pobl. Mewn enghreifftiau eraill, mae llais a dewis unigolion yn gyfyngedig ac nid yw'n glir. Yn yr un modd, mae tystiolaeth o leisiau aelodau o'r teulu ac eiriolwyr anffurfiol hefyd yn anghyson. Os bydd yr unigolyn yn cytuno i hynny, dylai safbwyntiau'r teulu a gofalwyr di-dâl hefyd lywio'r asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth. **Yn unol â'r Cod Ymarfer, Rhan 3 (asesu anghenion unigolion), rhaid i asesiadau gynnwys y pum elfen allweddol ac adlewyrchu sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau a gynhelir â phobl er mwyn nodi beth sy'n bwysig iddynt. Rhaid iddynt hefyd gynnwys y canlyniadau personol y maent am eu cyflawni a pha gyfraniad y gallan nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'r gymuned leol ei wneud tuag at gyflawni'r canlyniadau hynny.**

4.8 Mae enghreifftiau o wasanaeth eirioli yn cael ei gynnig yn briodol i bobl. Mae'n amlwg bod pobl yn cael budd o wasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol, gan gynnwys yng nghyd-destun materion diogelu. Fodd bynnag, nid yw'r ymarfer hwn yn gyson ac mae enghreifftiau sy'n dangos bod cyfleoedd yn cael eu colli i drafod a fyddai pobl yn cael budd o gael eiriolwr, boed hynny'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae angen nodi mwy o fanylion hefyd pan gaiff cynigion o'r fath eu gwrthod. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pobl yn cael eu grymuso'n gyson i fynegi eu hanghenion ac i gymryd rhan lawn fel partneriaid cyfartal, gyda'r opsiwn o gael eiriolaeth yn cael ei esbonio'n glir.**

4.9 Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i gefnogi gofalwyr di-dâl ac mae'n mynd ati i fonitro ei berfformiad o ran cynnig asesiadau i ofalwyr. Cafwyd cynnydd cadarnhaol yn nifer yr asesiadau a gynigir i ofalwyr. Mae cofnodion gofal cymdeithasol hefyd yn

cadarnhau bod gofalwyr yn cael cynnig asesiadau a'u bod yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion cymwys. Fodd bynnag, nid yw'r ymarfer hwn yn gyson, ac mae ansawdd asesiadau gofalwyr yn amrywiol. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio ar dempled drafft ar gyfer asesu anghenion gofalwyr, a bydd y templed diwygiedig yn helpu i sicrhau bod yr asesiadau yn bodloni'r gofynion statudol. **Rhaid i'r awdurdod lleol asesu'n fwy cyson yn unol â chanllawiau statudol a oes gan ofalwr anghenion cymorth (neu a yw'n debygol y bydd ganddo anghenion o'r fath yn y dyfodol) ac os felly, beth yw'r anghenion hynny neu'r anghenion tebygol hynny (Cod Ymarfer (Rhan 3) o Ddeddf 2014).**

4.10 Ni chaiff adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth pobl eu cynnal yn gyson o fewn y terfynau amser statudol gofynnol. **Er y cydnabyddir bod rhywfaint o waith cadarnhaol i oruchwylio a rhoi sicrwydd ynghylch amgylchiadau rhai pobl drwy drafodaethau wythnosol â darparwyr ac yn ystod cyfarfodydd wythnosol y Tîm Adnoddau Cymunedol amlddisgyblaethol, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau nad yw'r dyddiad adolygu fwy na 12 mis yn ddiweddarach er mwyn sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn dal i fod yn briodol ac yn berthnasol i'r unigolyn. Dylid sicrhau hefyd y caiff adolygiadau eu cynnal gan ddefnyddio'r fformat mwyaf priodol i'r unigolyn.**

4.11 Cadarnhaodd ymarferwyr eu bod yn cael amser i fyfyrio ar eu hymarfer yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Fodd bynnag, o'r sampl o gofnodion goruchwylio ysgrifenedig a welwyd, dim ond cyfeiriadau cyfyngedig ac anghyson yr oeddent yn eu cynnwys at drafodaethau ynghylch ymarfer myfyriol, llesiant staff, anghenion datblygu a'r cynnydd a wnaed â phobl. Mae'n galonogol nodi bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi drafftio polisi goruchwylio wedi'i ddiweddaru. Nodir bod y fersiwn ddrafft yn atgyfnerthu'r ffocws ar ymarfer myfyriol wedi'i lywio gan fframwaith cysyniadol ar gyfer goruchwyliaeth effeithiol. Mae Cynllun Darparu Gwasanaethau'r awdurdod lleol yn cyfeirio at ragor o strategaethau i wella ymarfer myfyriol ac mae'n cynnwys trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu ffeiliau goruchwylio a hyfforddiant pellach gan ganolbwyntio ar fentora. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau tystiolaeth gyson i ddangos bod ymarfer, llesiant staff, ac anghenion hyfforddiant a datblygiad yn cael eu goruchwylio, a bod trafodaethau myfyriol yn cael eu cynnal.**

## Atal

### Cryfderau

4.12 Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud buddsoddiadau cyfalaf sylweddol gan wella'r amrywiaeth o wasanaethau gofal a chymorth a'u hargaeledd. Mae'r rhain yn

cynnwys buddsoddi mewn safleoedd byw â chymorth anableddau dysgu newydd sy'n fwy addas i anghenion pobl nawr ac yn y dyfodol; a'r Ganolfan Dementia yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni, sydd wedi cael ei hadnewyddu. **Caiff nifer o wasanaethau trydydd sector eu cyd-leoli yn y ganolfan gan gynnig gwybodaeth, cyngor a gweithgareddau gwahanol i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr mewn un lleoliad sy'n arfer cadarnhaol.**

4.13 Mae'r rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref wedi lleihau'n sylweddol, a cheir prosesau cadarnach ar gyfer goruchwylio sefyllfaoedd pobl sy'n aros am wasanaeth. O ganlyniad, mae mwy o bobl yn cael gofal a chymorth mwy amserol yn eu cartrefi eu hunain.

4.14 Mae un o'r Timau Adnoddau Cymunedol yn treialu prosiect bregusrwydd, gyda chefnogaeth y Gronfa Integreiddio Ranbarthol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar roi cymorth ymatebol wedi'i deilwra er mwyn atal achosion lle bydd pobl yn gorfod mynd i'r ysbyty. **Mae tystiolaeth ystadegol yn dangos bod nifer y bobl yn yr ardal y mae angen gofal brys heb ei gynllunio arnynt wedi lleihau, gyda phobl yn cael eu cefnogi i aros yn eu cartrefi gyda chymorth amlddisgyblaethol. Mae hyn yn enghraifft o arfer cadarnhaol.**

**Meysydd i'w Gwella**

4.15 Mae heriau wrth ddarparu gofal seibiant byr addas, a lleoliadau arbenigol ar gyfer pobl ag anghenion nyrsio a dementia. Clywsom fod rhai pobl wedi gorfod defnyddio gwasanaethau o'r fath y tu allan i ardal yr awdurdod lleol, oherwydd diffyg argaeledd yn lleol. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i weithio ar ei ddatblygiadau strategol a gweithredol mewn partneriaeth ag eraill, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir mewn modd amserol a hynny mor agos â phosibl at eu cartref.**

4.16 Mae enghreifftiau o bobl yn cael budd o dechnoleg gynorthwyol i hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u diogelwch. Fodd bynnag, mae enghreifftiau eraill lle nad oes unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi'i ystyried. **Yn ystod y broses asesu a'r broses o gynllunio gofal a chymorth, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarferwyr yn ystyried yn gyson a fyddai gwasanaethau ataliol o fudd i bobl, gan gynnwys technoleg gynorthwyol.**

## Llesiant

### Cryfderau

4.17 Mae ymarfer diogelu oedolion wedi gwella. Sefydlwyd grŵp ymarfer da ym maes diogelu sydd wedi ysgogi gwelliannau mewn perthynas ag ymarfer diogelu oedolion. Caiff gwelliannau o ran ymarfer diogelu gweithredol eu cefnogi gan gynlluniau strategol a gweithredol sy'n cynnwys y canlynol, ymhlith eraill: cynllun darparu gwasanaethau, cynllun gwella diogelu oedolion a chanllawiau ymarfer ar gyfer gwasanaethau oedolion - ymgymryd ag ymholiadau diogelu oedolion.

4.18 Caiff adroddiadau oedolion sy'n wynebu risg eu sgrinio'n briodol, a chynhelir ymholiadau mewn modd amserol yn unol ag a. 126 o Ddeddf 2014. Ymgynghorir yn briodol â phartneriaid perthnasol a chânt eu cynnwys ar gamau gwahanol o'r broses ddiogelu gan gynnwys yn ystod prosesau sgrinio, wrth ymgymryd ag ymholiadau ac yn ystod cyfarfodydd strategaeth. Mae'r cofnodion yn glir ac yn gynhwysfawr, gan ddangos cydymffurfiaeth gryfach â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

4.19 Ystyrir pwy yw'r gweithiwr proffesiynol gorau i arwain yr ymholiad, gan ystyried pwy sy'n gyfarwydd i'r bobl a pharhad. Ceir ffocws ar hyrwyddo diogelwch yr oedolyn sy'n wynebu risg, ar sicrhau bod ei lais yn cael ei ystyried fel rhan ganolog o'r broses a bod rhesymeg glir pan gaiff ei lais a'i ddewisiadau eu diystyru. Caiff gwasanaeth eirioli annibynnol ffurfiol ei gomisiynu, gan sicrhau dull sy'n seiliedig ar hawliau.

4.20 Mae safon a chynnwys asesiadau o alluedd meddyliol wedi gwella gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer. Yn yr enghreifftiau gorau, defnyddir dulliau cyfathrebu priodol wedi'u teilwra at yr unigolyn, ac ystyrir pwy fyddai'r person gorau i gefnogi'r unigolyn, gan adlewyrchu dull sy'n canolbwyntio ar y person. Caiff dogfennaeth berthnasol ei hystyried ac ymgynghorir â'r bobl allweddol hefyd er mwyn helpu i wneud penderfyniadau hyddysg a chadarn. Fodd bynnag, dylid ystyried yr iaith a ddefnyddir wrth nodi'r rheswm dros yr asesiad, gan sicrhau bod pob parti perthnasol yn ei deall, lle y bo'n bosibl. Mewn un enghraifft, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod asesiad o alluedd meddyliol wedi'i gynnal lle byddai wedi bod yn briodol gwneud hynny. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff yr angen am Asesiad o Alluedd Meddyliol ei ystyried yn gyson ac y caiff asesiad o'r fath ei gynnal pan na fydd yn glir a oes gan unigolyn y galluedd meddyliol i wneud penderfyniad penodol.**

4.21 Cynhelir archwiliadau mewnol ar safon a chynnwys asesiadau o'r fath, gan nodi meysydd o ymarfer da a meysydd i'w cryfhau, gan ysgogi rhagor o welliannau.

## 5. Y Camau Nesaf

5.1 Rydym yn disgwyl i Gyngor Sir Ynys Môn gymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd y nodwyd bod angen eu gwella. Byddwn yn monitro cynnydd drwy ein gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Rydym yn croesawu ymdrechion gan yr awdurdod lleol i rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd gydag awdurdodau lleol eraill, er mwyn hyrwyddo'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

5.2 Disgwylir i'r awdurdod lleol gyflwyno'r llythyr hwn i aelodau etholedig a'i wneud yn destun proses graffu gyhoeddus drwy gyfarfod pwyllgor ffurfiol ac agored cyn gynted â phosibl. Dylid hefyd estyn gwahoddiad i AGC fynychu'r cyfarfod.

## 6. Methodoleg

**Gwaith maes**

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom adolygu 35 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pedwar.
- Gall olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn gynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws, â 3 unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau a/neu eu gofalwr.
- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws â 10 o gyflogeion yr awdurdod lleol.
- Gwnaethom gyfweld â 2 eiriolwr annibynnol ffurfiol.
- Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau goruchwylio staff.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, pobl a gofalwyr. Cafodd 54 o arolygon eu cwblhau gan staff gwasanaethau cymdeithasol a chafodd 56 o arolygon eu cwblhau gan bobl neu eu gofalwyr.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 7. Y Gymraeg

7.1 Cyflawnwyd ymrwymiad AGC i ddarparu cynnig rhagweithiol i gynnal rhannau o'r arolygiad yn Gymraeg. Roedd angen y cynnig rhagweithiol yn ystod yr arolygiad hwn.

## 8. Cydnabyddiaethau

8.1 Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,

**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

## Atodiad 1

**Rhestr Terminoleg**

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddynt weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl a/neu eu gofalwr. Nid yw'n cyfateb i fethiant i gyflawni dyletswydd statudol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg y gallai'r awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Gwella** | Mae hyn yn ymwneud â meysydd y mae'r awdurdod lleol wedi'u hatgyfnerthu y nodwyd yn ein gweithgarwch blaenorol bod angen eu gwella er mwyn cyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu |

| | |
|---|---|
| | mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu cyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at atgyfnerthu'r trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **10/04/2025** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ymateb CSYM i Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Y Cynghorydd Douglas Fowlie** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Huw Percy**<br><br>**Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Dylan Llewelyn Jones**<br><br>**(01248 751805)**<br><br>**DylanLlewelynJones@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl aelodau etholedig** |

25

| **1 - Argymhelliad/argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo ymateb ymgynghoriad arfaethedig Cyngor Sir Ynys Môn i Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, fel yr amlinellir yn Atodiad A. |

**2 - Cyswllt â Chynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

**Cynllun y Cyngor 2023-2028**

**Newid Hinsawdd**

- I ddatblygu a darparu cynlluniau trafnidiaeth cynaliadwy, megis datgarboneiddio trafnidiaeth, teithio llesol a llwybrau beicio.

**Economi**

- Cydweithio â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i gryfhau rôl Caergybi a'r porthladd fel porth rhyngwladol allweddol.
- Annog datblygiad rhagor o brosiectau carbon isel, megis Hwb Hydrogen Caergybi.
- Parhau i ddarparu adferiad gwyrdd, cynaliadwy a gwella hyfywedd a bywioldeb canol trefi drwy wella cysylltedd rhwng dulliau trafnidiaeth gwahanol.

**Gofal Cymdeithasol**

- Sicrhau bod hybiau cymunedol yn hygyrch er mwyn hyrwyddo annibyniaeth a gwella iechyd a llesiant pobl.

**Amcanion Llesiant**

- Fod pobl Ynys Môn mor ddiogel, iach ac annibynnol a phosibl.
- Fod pobl Ynys Môn, a'i chymunedau'n mwynhau, yn diogelu ac yn gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**3 - Egwyddorion fel Canllaw ar gyfer Aelodau Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith y mater ar unigolion a chymunedau – mae'r CTRh yn cael effaith ar bob unigolyn a chymuned gan fod pawb yn ddibynnol ar y system drafnidiaeth at ddibenion teithio, boed yn teithio'n lleol o fewn Ynys Môn neu'n ehangach ar draws rhanbarth gogledd Cymru (ac ymhellach). Felly, mae sicrhau bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn addas ar gyfer Ynys Môn yn hollbwysig, a bod gan ymyriadau yn y dyfodol y gallu i greu newid cadarnhaol i leihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghefn gwlad Cymru.

**3.2** Golwg ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd – Mae prosesau ar waith ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru i foderneiddio'r system grantiau o fewn y sector trafnidiaeth (gan fod saith rhaglen wahanol ar hyn o bryd) i ddarparu gwell cyfeiriad strategol ar draws y gwahanol ddulliau trafnidiaeth ac i wella ansawdd gwelliannau drwy gael dealltwriaeth gyffredinol o'r cynlluniau yn hytrach na thrin pob grant ar wahân.

**3.3.** Ystyrir bod y risgiau sy'n gysylltiedig â Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn isel iawn ar hyn o bryd gan ei bod yn ddogfen strategol a gweledigaethol ac nid yw'n canolbwyntio ar gyflawni cynlluniau unigol.

**3.4** Sgriwtini yn cymryd rôl sicrhau ansawdd neu monitro perfformiad

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor - Mae CSYM yn cefnogi'r egwyddor i baratoi CTRh newydd ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n gosod y weledigaeth am y 5 mlynedd nesaf (2025-2030) mewn perthynas â sut all trafnidiaeth gyfrannu at lesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol ehangach pobl yn y rhanbarth
- Atal - Mae'r CTRh yn cyd-fynd â'r hierarchaeth drafnidiaeth a nodir yn Llwybr Newydd Llywodraeth Cymru sy'n blaenoriaethu mesurau trafnidiaeth cynaliadwy er mwyn lleihau effaith trafnidiaeth (pobl a nwyddau) ar yr amgylchedd.
- Integreiddio - Mae'r CTRh yn ceisio ystyried yr holl ddulliau trafnidiaeth amrywiol, fodd bynnag, mae'r Cyngor Sir o'r farn y gellir gwneud gwaith pellach i sicrhau bod synergedd rhwng pob math o drafnidiaeth yn enwedig i gysylltu ardaloedd gwledig â chyfnewidfeydd trefol gan y bydd hyn yn darparu hygyrchedd pellach i bawb allu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.
- Cydweithio - Cynhaliwyd digwyddiadau Ymgynghori Cyhoeddus lleol i dderbyn adborth gan aelodau'r gymuned.
- Ymglymiad - Mae Swyddogion Priffyrdd / Trafnidiaeth ym mhob Awdurdod Lleol yn darparu mewnbwn i ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol trwy weithio gyda'u haelodau portffolio drwy'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol. Mae'r amserlen heriol i fabwysiadu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi golygu bod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn rhoi cyfle i fyfyrio ar y fersiwn drafft ac i gynnig mireinio ar gyfer y fersiwn derfynol.

**3.6** Gweler adran 6 mewn perthynas ag effaith posibl y pendefyniad ar

- grwpiau gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

- y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg a thrin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg

**4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Sut fydd y broses ymgynghori cyhoeddus yn dylanwadu ar fersiwn derfynol y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?
2. Beth yw'r heriau a'r cyfleoedd allweddol o fewn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n wynebu ardaloedd gwledig fel Ynys Môn?

**5 Cefndir / Cyd-destun**

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cyd-fynd â chynllun Llwybr Newydd Llywodraeth Cymru: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021 (STC). Mae'r ddogfen hon yn darparu'r cyfeiriad strategol, y weledigaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru. Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn benodol i Ogledd Cymru ac yn darparu'r cyfeiriad ar gyfer y pum mlynedd nesaf o ran blaenoriaethau ac ymyriadau o fewn rhannau gwahanol y system drafnidiaeth.

Mae'r CTRh yn ddogfen strategol lefel uwch sy'n gosod y weledigaeth ar gyfer y rhanbarth, er hyn, y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol sydd o bwysigrwydd allweddol o ran prosiectau dylanwadol fydd yn ceisio gwella cysylltiadau a chysylltedd trafnidiaeth ledled y rhanbarth, ac ar Ynys Môn. Yn y pen draw, mae effeithiolrwydd y CTRh yn dibynnu ar i ba raddau mae'r Cynllun Cyflawni'n cael ei weithredu yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

Bydd CTRh Gogledd Cymru yn cael ei arwain a'i lywodraethu gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CJC). Mae Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJC) yn endidau llywodraeth leol corfforaethol rhanbarthol sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol o fewn eu hardal daearyddol ranbarthol. Bu i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 greu'r fframwaith ar gyfer sefydlu'r CJCau yng Nghymru ac fe'u sefydlwyd ar 1 Ebrill 2021.

Mae gan CJC Gogledd Cymru ddyletswydd statudol i baratoi:

- Cynllun Datblygu Strategol
- Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Yn ogystal, mae ganddynt y pŵer i wneud unrhyw beth a fydd yn gwella neu'n hybu lles economaidd rhanbarthol. Mae'r CJC wedi sefydlu ei Is-bwyllgorau Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol i gyflawni ei swyddogaethau statudol. Mae'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol wedi cyfarfod, ac mae gwaith wedi'i wneud i baratoi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

| 6 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar y Gymraeg] |
|---|
| **6.1** Effeithiau posibl ar y grwpiau sydd wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 |
| Cynhaliodd CSYM sesiynau galw heibio yn Llyfrgelloedd Caergybi a Llangefni ar 11 a 13 Chwefror er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd (gan gynnwys y rheiny gyda nodweddion gwarchodedig) leisio eu barn a rhannu sylwadau ar y CTRh arfaethedig, er mwyn sicrhau fod unrhyw effeithiau ar grwpiau gwarchodedig yn cael eu hamlygu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd ystyriaethau bellach yn cael ei rhoi i grwpiau gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fesul cynllun (fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol) i sicrhau bod eu hanghenion wedi'u hystyried yn briodol.<br><br>Ymgymerodd y Cyngor Sir â'r mesur ymgynghori uchod yn rhagweithiol er mwyn integreiddio'r holl grwpiau yn llawn fel rhan o'r broses ymgynghori. Mae hwn yn ddull ychwanegol o ymgynghori i'r dulliau ar-lein a ddefnyddir gan Uchelgais Gogledd Cymru (ar ran y CJC). |
| **6.2 Effeithiau posib ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Mae diffyg trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn fwy dylanwadol oherwydd mae mwy o bobl yn dibynnu ar ddefnyddio ceir eu hunain - nid oes unrhyw opsiynau realistig eraill ar gael ar hyn o bryd. Mae hwn yn fater hollbwysig i'r rhai sy'n profi anfanteision economaidd-gymdeithasol.<br><br>Ni ellir peidio â sylweddoli gwerth rhyng-gysylltedd rhwng dulliau trafnidiaeth gwahanol mewn ardaloedd gwledig. Derbynnir fod gwasanaethau'n llai rheolaidd mewn ardaloedd gwledig o gymharu â mannau trefol oherwydd maint y boblogaeth, er hyn, mae'n hollbwysig fod cynllun buddsoddi integredig ar waith sy'n galluogi pobl i deithio i leoliad o'u dewis drwy ddefnyddio sawl dull trafnidiaeth wahanol. Mae'n rhaid i amserlenni trafnidiaeth gynaliadwy fod yn ddefnyddiol er mwyn annog pobl i'w ddefnyddio, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Byddai hyn yn atal pobl rhag cael eu gwahardd yn gymdeithasol oherwydd diffyg opsiynau trafnidiaeth. Mae Gogledd Ynys Môn ar yr ymylon, a dylai fod yn flaenoriaeth i wella cysylltiadau gyda hybiau trefol ac economaidd yr Ynys a'r tir mawr, gan fod seilwaith trafnidiaeth yn ysgogydd allweddol ar gyfer tyfu'r economi.<br><br>Er bod y CTRh yn cydnabod heriau gwledig a'i fod yn cynnig cyfle am welliannau, ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio ar y dulliau trafnidiaeth sydd wedi'u hynysu, ond mae angen rhyng-gysylltiad rhwng dulliau trafnidiaeth er mwyn hwyluso system drafnidiaeth mwy effeithiol mewn ardaloedd gwledig. Rhaid rhoi mwy o ystyriaeth i'r anghenion, heriau a chyfleoedd mae system drafnidiaeth integredig yn eu cynnig er mwyn galluogi pobl mewn cymunedau gwledig i deithio i ardaloedd trefol wrth symud ymlaen. |
| **6.3 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a thrin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg** |
| Mae'n ymddangos bod yr Arfarniad Llesiant Integredig yn mynd i'r afael â'r holl gydrannau hanfodol megis sut fydd y rhaglen gyffredinol yn effeithio, ac o fudd, i'r amgylchedd, cymunedau, cydraddoldeb, economi, diwylliant a'r Gymraeg i sicrhau bod y Cynllun Trafnidiaeth yn cyd-fynd â nodau llesiant ehangach sy'n cyfrannu at ddatblygiadau cynaliadwy yng ngogledd Cymru. Bydd cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg (a chael eu trin yn gyfartal â'r Saesneg) gyda gwasanaethau dwyieithog yn cael eu darparu ar bob amserlen ac arwydd.. |

| 7 - Goblygiadau Ariannol |
|---|
| Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cyngor Sir ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o foderneiddio eu prosesau ar gyfer system grantiau yn y sector trafnidiaeth. Bydd cynlluniau fydd yn cael eu datblygu / gweithredu fel rhan o Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cael eu hariannu'n allanol drwy'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol, a bydd unrhyw gyfraniad arian cyfatebol gan y Cyngor Sir yn cael ei bennu fesul cynllun. Bydd angen i swyddogion o'r Awdurdod Lleol gyflawni cynlluniau ar lefel Awdurdod Lleol ac felly bydd yn dibynnu ar y capasiti sydd ar gael. |

| 8 - Atodiadau: |
|---|
| **Atodiad A - Ymateb CSYM i Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru** |

| 9 - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Llwybr Newydd (Strategaeth Trafnidiaeth Cymru). |

Ebrill 2025

Annwyl Syr / Fadam,

**Ymateb i Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn croesawu'r cyfle hwn wneud sylwadau ac ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) Gogledd Cymru drafft.

Mae CSYM yn cefnogi'r egwyddor i baratoi CTRh newydd ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n gosod y weledigaeth am y 5 mlynedd nesaf (2025-2030) mewn perthynas â sut all trafnidiaeth gyfrannu at lesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol ehangach pobl yn y rhanbarth. Mae'r CTRh yn cyd-fynd â chynllun Llwybr Newydd Llywodraeth Cymru (Strategaeth Trafnidiaeth Cymru).

Mae'r CTRh yn ddogfen strategol lefel uwch sy'n gosod y weledigaeth ar gyfer y rhanbarth, er hyn, y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol sydd o bwysigrwydd allweddol o ran prosiectau dylanwadol fydd yn ceisio gwella cysylltiadau a chysylltedd trafnidiaeth ledled y rhanbarth, ac ar Ynys Môn. Yn y pen draw, mae effeithiolrwydd y CTRh yn dibynnu ar i ba raddau mae'r Cynllun Cyflawni'n cael ei weithredu yn ystod y 5 mlynedd â galluogi symud pobl i gael mynediad at wasanaethau allweddol fel pobl ifanc i addysg, pobl i safleoedd cyflogaeth, a phobl fregus yn gallu cael mynediad at leoliadau ar gyfer eu hanghenion dyddiol. O ystyried fod pob menter a amlinellir yn y Cynllun Cyflawni yn allweddol i'w Awdurdod Lleol perthnasol (a gan ddeall yr angen am ddull rhanbarthol i flaenoriaethu cynlluniau), mae dal angen dull penodol i sicrhau bod cyllid yn cael ei rannu'n deg er mwyn cynnig buddion go iawn i gymunedau ledled Gogledd Cymru.

Cynhaliodd CSYM sesiynau galw heibio yn Llyfrgelloedd Caergybi a Llangefni ar 11 a 13 Chwefror er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd (gan gynnwys y rheiny gyda nodweddion gwarchodedig) leisio eu barn a rhannu sylwadau ar y CTRh arfaethedig.



*Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn y Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith. /*
*You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.*

## Annog Newid Dulliau Teithio mewn Ardaloedd Gwledig

Mae CSYM yn bryderus nad yw cynllun Llwybr Newydd Llywodraeth Cymru (a'r CTRh drwy lynu wrth y Strategaeth Genedlaethol) yn rhoi ystyriaeth lawn i'r heriau sy'n wynebu ardaloedd gwledig yn y sector trafnidiaeth a sut i'w goresgyn. Mae diffyg trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn fwy dylanwadol oherwydd mae mwy o bobl yn dibynnu ar ddefnyddio ceir eu hunain - nid oes unrhyw opsiynau realistig eraill ar gael ar hyn o bryd.

Ni ellir peidio â sylweddoli gwerth rhyng-gysylltedd rhwng dulliau trafnidiaeth wahanol mewn ardaloedd gwledig. Derbynnir fod gwasanaethau'n llai rheolaidd mewn ardaloedd gwledig o gymharu â mannau trefol oherwydd maint y boblogaeth, er hyn, mae'n hollbwysig fod cynllun buddsoddi integredig ar waith sy'n galluogi pobl i deithio i leoliad o'u dewis drwy ddefnyddio sawl dull trafnidiaeth wahanol. Mae'n rhaid i amserlenni trafnidiaeth gynaliadwy fod yn ddefnyddiol er mwyn annog pobl i'w ddefnyddio, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Byddai hyn yn atal pobl rhag cael eu gwahardd yn gymdeithasol oherwydd diffyg opsiynau trafnidiaeth. Mae Gogledd Ynys Môn ar yr ymylon, a dylai fod yn flaenoriaeth i wella cysylltiadau gyda hybiau trefol ac economaidd yr Ynys a'r tir mawr, gan fod seilwaith trafnidiaeth yn ysgogydd allweddol ar gyfer tyfu'r economi.

Er bod y CTRh yn cydnabod heriau gwledig a'i fod yn cynnig cyfle am welliannau, ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio ar y dulliau trafnidiaeth sydd wedi'u hynysu, ond mae angen rhyng-gysylltiad rhwng dulliau trafnidiaeth er mwyn hwyluso system drafnidiaeth fwy effeithiol mewn ardaloedd gwledig. Rhaid rhoi mwy o ystyriaeth i'r anghenion, heriau a chyfleoedd mae system drafnidiaeth integredig yn eu cynnig er mwyn galluogi pobl mewn cymunedau gwledig i deithio i ardaloedd trefol wrth symud ymlaen.

## Uchelgeisiau Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (RhFfS) - Pontydd y Fenai

Cydnabyddir fod y RhFfS yng Ngogledd Cymru yn cynnwys cefnffyrdd 'A', sy'n cael eu rheoli a'u cynnal a chadw gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Yn yr un modd â rheilffyrdd, nid oes gan y CJC nac Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru unrhyw ddylanwad uniongyrchol, er hyn, mae dyheadau am newid isadeiledd trawsnewidiol ar Groesfan Menai yn hanfodol i wydnwch coridor yr A55 (llwybr Euro-22) sef gwythïen trafnidiaeth rhanbarth Gogledd Cymru ar gyfer cysylltiad rhyngwladol ag Iwerddon.

Felly, rydym yn cefnogi achos Uchelgais RhFfS 4 i barhau i greu Trydedd Bont dros y Fenai er mwyn gwella gwydnwch, amser teithio a chapasiti. Ymatebodd CSYM i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru i eiriau o'r fath a darparodd dystiolaeth â'r sylfaen gref i gyfiawnhau'r angen am drydedd groesfan (Atodiad 1) ac yn pwysleisio'r effeithiau eang ac arwyddocaol y mae cau pontydd yn eu cael ar yr economi, iechyd, addysg, hamdden a lles preswylwyr. Byddai'r achos hwn yn cael ei gryfhau ymhellach petai prosiectau o bwysigrwydd cenedlaethol (Wylfa Newydd) yn cael eu datblygu yn ogystal â phrosiect Porthladd Rhydd Ynys Môn. Yn ogystal, pe bai datblygiad Wylfa Newydd yn cael ei gadarnhau, byddai CSYM yn argymell ail-ymweld â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Ranbarthol gan y byddai'r prosiect hwn yn wirioneddol



*Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn y Gymraeg neu'n Saesneg. Gewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith. /*
*You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.*

ddylanwadol ac yn darparu newid heb ei ail ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Felly, byddai angen ailedrych ar y prosiectau blaenoriaeth.

Nid yw'r adroddiad yn nodi'r angen am gyfleusterau parcio Cerbydau Nwyddau Trwm addas, dros dro, y naill ochr i'r Fenai nac i wasanaethu porthladd Caergybi pe bai pont ar gau. Mae'r enghraifft hon wedi digwydd yn amlach yn ddiweddar. Mae'r A55 a'r rhwydwaith priffyrdd o'i chwmpas yn dod i stop ym Mangor, Porthaethwy a Llanfairpwll bob tro y bydd digwyddiad ar Bont Britannia. Mae'r digwyddiadau hyn yn effeithio'n ddifrifol ar y rhanbarth yn enwedig y Gwasanaethau Brys, Ysbyty Gwynedd, Ysgolion, Colegau, busnesau a chymudwyr. Wynebir heriau tebyg yng Nghaergybi gyda Cherbydau Nwyddau Trwm yn parcio mewn Ystadau Diwydiannol a meysydd parcio, gan effeithio ar y dref a'i thrigolion. Bydd CSYM yn croesawu ystyriaeth bellach yn y CTRh neu gamau gweithredu sy'n deillio o Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Yn y tymor byr, mae CSYM yn cydnabod bod Trafnidiaeth Cymru'n cynnal astudiaethau'n dilyn Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru i wella gwytnwch Pontydd y Fenai. Bydd CSYM yn parhau i weithio gyda sefydliadau partner i symud ymyriadau yn eu blaenau gan gynnwys gwelliannau i seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol, dyfeisiau gwynt posibl i atal gorfod cau Pont Britannia tra bo gwyntoedd cryfion ac unrhyw gyfleoedd i wella cyffyrdd.

### Porthladd Caergybi a'r Porthladd Rhydd

Mae porthladd Caergybi'n hollbwysig o ran cefnogi asgwrn cefn economaidd a chymdeithasol Cymru. Mae porthladd Caergybi yn cael ei adnabod fel yr 2ail borthladd prysuraf yn y DU ar gyfer cludo teithwyr fferi môr byr a chludiant rhyngwladol i Iwerddon, yn ogystal â mwyafrif yr unedau cludo llwythi gyrru i mewn ac allan yng Nghymru. Mae pwysigrwydd strategol porthladd Caergybi i wasanaethu Cymru, y DU ehangach ac yn rhyngwladol i gysylltu Iwerddon â thir mawr Ewrop yn hollbwysig. Mae graddfa pwysigrwydd Porthladd Caergybi i economi Cymru yn sylweddol. Roedd difrifoldeb cau Porthladd Caergybi yn ddiweddar ar ôl y difrod a achoswyd gan Storm Darragh a arweiniodd at ddymchwel angorfa ffender yn amlygu'r effaith ar y sector trafnidiaeth ehangach o ran symud nwyddau rhyngwladol a symud pobl i/o Iwerddon i'r DU. Mae tystiolaeth o effaith niweidiol cau'r Porthladd i'w gweld yn Atodiad 2.

Croesewir gwelliannau yn y dyfodol i gefnogi twf y porthladd, yr orsaf reilffordd a safleoedd Porthladd Rhydd cyfagos (Polisi PF1-PF3). Bydd y statws Porthladd Rhydd yn cyfoethogi rôl Caergybi fel porth rhyngwladol, a bydd yn chwarae rôl bwysig o ran cryfhau economi gogledd Cymru a chreu gwaith ar gyfer pobl leol. I'r gwrthwyneb, efallai y bydd goblygiadau pellach oherwydd y cynnydd yn nifer y llwythi fydd yn cael eu cludo, a bydd yn dod yn fwy o flaenoriaeth i weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat i adnabod gwelliannau mewn perthynas â mynedfeydd ac allanfeydd cerbydau (a Cherbydau Nwyddau Trwm wrth gyrraedd Caergybi) yn ogystal â gwella mynediad cynaliadwy i'r porthladd a'r orsaf drenau. Felly, mae CSYM o'r farn bod angen prif gynllun hollgynhwysol ar gyfer y porthladd a'r orsaf drenau ehangach (yn ogystal â chysylltiadau'r briffordd) am ei fod yn ddarn allweddol o'r seilwaith strategol er mwyn hwyluso adferiad datblygiad trafnidiaeth ac economaidd yn y rhanbarth.

### Cysylltiadau Rheilffordd



*Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn y Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith. /*
*You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.*

Cydnabyddir nad yw seilwaith rhwydwaith rheilffyrdd gogledd Cymru wedi'i ddatganoli ac nad oes gan Gydbwyllgor Corfforedig y Gogledd (CJC) ac Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru unrhyw ddylanwad uniongyrchol dros wasanaethau rheilffyrdd a bod cynlluniau sy'n ymwneud â rheilffyrdd wedi'u heithrio o'r Cynllun Cyflawni. Serch hynny, mae'n hanfodol bod y CTRh yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer rheilffyrdd ar draws y rhanbarth i gefnogi dyheadau ehangach ar gyfer gwell cysylltedd a symudiad pobl o fewn gogledd Cymru a thu hwnt i weddill y DU.

Ar y sail hon, mae'n siomedig nad yw cynigion gwelliannau seilwaith yn cael eu blaenoriaethu i'r gorllewin o Gyffordd Llandudno (RA4). Mae hyn yn methu â bodloni'r dyheadau a nodir yn yr CTRh ac nid yw'n ystyried pwysigrwydd Gorsaf Reilffordd Caergybi a allai ddarparu ar gyfer teithwyr rhyngwladol i gysylltu teithio ymlaen o/i Iwerddon i weddill y DU neu hyd yn oed i Ewrop trwy Lundain ac i'r Porthladd rhydd Ynys Môn.  Mae dwy orsaf fawr ar y rheilffordd sy'n darparu ar gyfer trigolion Ynys Môn sydd y tu hwnt i Gyffordd Llandudno ac, er bod anawsterau o ran uwchraddio'r rheilffordd yn cael eu gwerthfawrogi, mae'n teimlo nad yw'r manteision a ddaw yn sgil gwelliannau trawsnewidiol o'r fath, a fyddai'n gwasanaethu unig derfynfa borthladd mawr y rhanbarth, yn cael eu cyflwyno. Mae CSYM yn credu bod cysylltiadau cryf parhaus â Llundain a Gogledd Orllewin Lloegr yn flaenoriaeth yn y tymor hir i gysylltu pobl ymlaen o Ddulyn ac ar gyfer teithio busnes i'r rhai sy'n dewis byw ar yr Ynys ac y byddai'n werthfawr iawn ar gyfer 'gweithio hybrid'.

Yn hyn o beth, mae'n ymddangos bod Polisi PF1 ychydig yn groes i hyn, lle mae'r polisi'n hyrwyddo blaenoriaethu cysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy i Gaergybi, ond nid yw'n ymddangos bod y dyhead i wella seilwaith yn ymestyn y tu hwnt i Gyffordd Llandudno. I'r un perwyl, nid yw'r gost i deithio ar drenau (a gynyddwyd yn ddiweddar gan Drafnidiaeth Cymru) a'r diffyg gwasanaethau yn fwyafrif y gorsafoedd ledled Ynys Môn yn annog pobl i'w defnyddio'n fwy rheolaidd na cheir.

Mae CSYM yn nodi diffyg o ran synergedd o fewn y CTRh gyda Llwybr Newydd mewn perthynas ag ailddefnyddio rheilffyrdd nad ydynt mewn defnydd. Mae CSYM yn awyddus i weld ased Lein Amlwch yn cael ei defnyddio unwaith eto. Croesawom y cyfeiriad yn y Llwybr Newydd ar y posibilrwydd o ailddefnyddio llinellau rheilffordd a seilwaith trafnidiaeth segur eraill. Gall ailddefnyddio asedau rheilffordd ar gyfer y dyfodol greu economi ymwelwyr cadarnhaol yn ogystal ag asedau cymunedol, a byddem yn croesawu ystyriaeth bellach ar gyfer seilwaith o'r fath yn y CTRh.

Mae'r sylw am Faes Awyr Ynys Môn ar dudalen 10 a 19 yn anghywir, gan fod y maes awyr wedi cau ers 2022. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am gysylltiadau trafnidiaeth buan eraill er mwyn cysylltu'r genedl. Mae buddsoddiad pellach i greu rhwydwaith rheilffordd rymus a chyflym i gysylltu gogledd orllewin Cymru gyda gogledd Lloegr a de Cymru yn angenrheidiol. Byddai hyn yn chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu economi gogledd orllewin Cymru, gan ddarparu cysylltiadau gwell ar gyfer busnesau, cyfleoedd twristiaeth a llai o amser yn teithio (fel yr amlinellir uchod yn yr adran Cysylltedd Rheilffordd).

**Gwasanaethau Bws**



*Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn y Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith. /*
*You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.*

DRAFT

Nid oes unrhyw wasanaethau bws mewn rhannau gwledig o Ynys Môn, ac yn fwy diweddar, mae toriadau i'r gwasanaethau cyfyngedig presennol (a oedd eisoes yn ddiffygiol) wedi cyfateb i gynnig trafnidiaeth gyhoeddus sy'n gwaethygu ar yr Ynys sydd wedi dieithrio llawer o drigolion oedd yn ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus. Nid yw hyn wedi bod yn ffafriol i gyflawni cyfraddau defnydd uwch ac mae'n gorfodi'r mwyafrif i ddibynnu ar geir preifat. Yn ogystal, mae'r gost i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn rhu ddrud i lawer, sy'n achosi rhwystr. Mae CSYM yn credu bod angen canolbwyntio ar gynyddu amlder ac ansawdd y gwasanaethau bysiau yn hytrach na gwella seilwaith bysiau lle mae cyfleoedd yn gyfyngedig mewn ardal wledig (ni fydd seilwaith bysiau yn unig yn cynyddu lefelau defnydd). Er ein bod yn croesawu'r egwyddor o fasnachfraint bysiau a'r uchelgais am well gwasanaethau bysiau a seilwaith, heb gyllid ychwanegol i'w gyflawni, rydym mewn perygl o godi disgwyliadau yn ddiangen ac yn gwaethygu sefyllfa sydd eisoes yn sensitif. Mae angen sicrwydd hefyd i sicrhau bod unrhyw newidiadau i wasanaethau bysiau yn mynd i'r afael ag anghenion ardaloedd gwledig ac yn ystyried pwysigrwydd bysiau trafnidiaeth gyhoeddus ar Deithio Addysg Cartref i'r Ysgol.

Yn ogystal, mae CSYM yn teimlo bod angen mwy o bwyslais o fewn y CTRh (ac wedi hynny, yn y Cynllun Cyflawni) ar y weledigaeth ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig megis y Gwasanaeth Hyblyg, Gwasanaethau Ymateb i Alw, a Chynlluniau Cludiant Cymunedol. Byddai hyn yn gwasanaethu trigolion mewn ardaloedd gwledig yn well, gan gynnig mwy o symudedd a lleihau'r angen i ddefnyddio car preifat. Gallai dull arloesol o'r fath bontio'r bwlch rhwng cysylltu ardaloedd anghysbell â lleoliadau cyfnewid a fyddai'n galluogi teithio ymlaen.

**Teithio Llesol (Cerdded, olwyno a beicio)**

Mae CSYM yn cefnogi cynnwys Teithio Llesol o fewn y CTRh. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i annog newid moddol a denu pobl i gerdded, olwyno neu feicio, a rhaid cael yr amodau cywir i wneud yr opsiwn yn fwy deniadol i fwy o bobl. Er gwaethaf y buddion datgarboneiddio a llesiant cydnabyddedig o'r dulliau hyn, bydd diffyg parhaus o ran seilwaith galluogi yn rhwystro cynnydd yn enwedig mewn ardaloedd gwledig gan fod pellteroedd o aneddiadau allanol i aneddiadau teithio llesol dynodedig yn rhy hir a bod diffyg integreiddio â dulliau trafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy eraill. Mewn ardaloedd gwledig, ystyrir bod angen mwy o hyblygrwydd o ran y Canllawiau Dylunio Teithio Llesol yng nghefn gwlad Cymru er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol gwledig yn gallu datblygu llwybrau teithio llesol yn llwyddiannus er budd yr holl ddefnyddwyr posibl, gan gynnwys twristiaid ac ymwelwyr, a chydnabod bod yr anghenion a'r math o ddarpariaeth sy'n briodol ar gyfer ardaloedd gwledig yn wahanol i'r un mewn aneddiadau trefol mwy. Mae gwneud defnydd o goridorau trafnidiaeth segur i newid dulliau teithio yn darparu un ateb pragmatig i fynd i'r afael â'r mater hwn. Yn olaf, byddem yn awyddus i weld a oes posibilrwydd i ehangu ar y diffiniad o deithio llesol i gylch gwaith ehangach i gynnwys dibenion hamdden ac iechyd a lles, oherwydd mae'r mathau hynny o deithiau teithio'r un mor bwysig.

**Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan a Cherbydau Tanwydd / Allyriadau Isel Iawn**

Mae cynnwys pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan yn cael ei groesawu'n fawr, fodd bynnag, mae angen cyfathrebu rhagor o wybodaeth i wella dealltwriaeth ar y



*Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn y Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith. /*
*You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.*

berthynas rhwng rôl y sector preifat a'r sector cyhoeddus wrth gyflwyno pwyntiau gwefru ac mae angen polisi penodol ar lefel genedlaethol ar y dull o wefru.

Ymhellach, mae angen mwy o bwyslais ar yr angen am waith partneriaeth gwell gyda'r Gweithredwr Rhwydwaith Ardal ac i ddylanwadu'n gadarnhaol ar fuddsoddiad pellach yn y rhwydwaith gan fod perygl, ar hyn o bryd, na fydd y capasiti a'r seilwaith trydanol (yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig) yn ddigonol i fodloni'r cynnydd mewn cerbydau trydan sy'n debygol yn y blynyddoedd i ddod. Felly, mae angen ffocws a dyhead i gynyddu buddsoddiad yn y seilwaith i osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan. Heb fuddsoddiad yn y seilwaith sylfaenol mae perygl y bydd ardaloedd gwledig yn cael eu gadael ar ôl a bydd hyn yn creu rhwystrau mewn ardaloedd cyffelyb. Gall y canlyniad hwn effeithio'n ddifrifol ar ddenu ymwelwyr fel rhan o'r economi ymwelwyr a chreu rhagor o wahaniaeth (mae'r economi ymwelwyr yn rhan annatod o economi Ynys Môn).

Mae CSYM yn croesawu'r cynnwys ar Hwb Hydrogen Caergybi (PF4) ond yn credu bos angen mwy o bwyslais i sicrhau fod yr holl ddatblygiadau cysylltiedig o fewn Hwb Hydrogen Caergybi yn cael eu cynnwys fel rhan o'r Cynllun Cyflawni ac unrhyw gysylltiadau â'r Cyfleusterau Rheoli Ffiniau ym Mharc Cybi. Mae'r Hwb, sy'n ddatblygiad arloesol, yn cael ei adnabod fel darn allweddol o'r seilwaith fydd yn cefnogi'r sector Trafnidiaeth ac Ynni.

**Monitro, Gwerthuso ac Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)**

Er bod CSYM yn cytuno bod y Cynlluniau Monitro a Gwerthuso yn ofynnol, yn bwrpasol ac yn briodol, mae angen mwy o eglurder ynghylch lle mae'r cyfrifoldeb hwn - boed yn cael ei gynnal fesul cynllun, neu mewn dull mwy cyfannol o fesur perfformiad ar draws y rhanbarth. Mae'n ymddangos bod yr IWBA yn mynd i'r afael â'r holl gydrannau hanfodol megis sut fydd y rhaglen gyffredinol yn effeithio, ac o fudd, i'r amgylchedd, cymunedau, cydraddoldeb, economi, diwylliant a'r Gymraeg i sicrhau bod y Cynllun Trafnidiaeth yn cyd-fynd â nodau llesiant ehangach sy'n cyfrannu at ddatblygiadau cynaliadwy yng Ngogledd Cymru.

**Parhau i Weithio mewn Partneriaeth**

Mae angen eglurder pellach ar ble y bydd y capasiti a'r adnoddau i gyflawni'r Cynllun Cyflawni yn dod. Mae angen taro cydbwysedd mewn perthynas â'r weledigaeth a'r dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru yn erbyn y cyllid a fydd ar gael i gyflawni'r dyheadau – mae perygl y byddwn yn codi disgwyliadau pobl pe na bai'r cyllid ar gael i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol. Mae hyn yn ychwanegol at y ffaith bod adnoddau a chapasiti yn cael eu lleihau'n fewnol tra bod arbenigedd yn cael ei ymestyn.

Mae CSYM wedi ymrwymo i gydweithio'n lleol, ar draws gogledd Cymru a gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol (yn ogystal â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru) i sicrhau bod y CTRh a'r Cynllun Cyflawni yn addas ac yn adlewyrchu anghenion yr holl Awdurdodau Lleol, gan gynnwys rhai ardaloedd gwledig lle mae angen mwy o fuddsoddiad a syniadau amgen i sicrhau bod y boblogaeth gyfan yn cael cyfle i deithio'n gynaliadwy i'w cyrchfannau, ac nad yw pobl Ynys Môn a gweddill gogledd Cymru'n cael eu gwahardd yn economaidd nac yn gymdeithasol. Mae angen aliniad



*Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn y Gymraeg neu'n Saesneg. Gewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith. /*
*You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.*

clir, o'r lefel leol i'r lefel ranbarthol, fydd yn darparu'r trywydd ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith a datblygiadau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.

Yn hyn o beth, byddai CSYM yn croesawu trafodaethau pellach i fireinio'r CTRh i sicrhau bod y sylwadau adeiladol uchod yn cael sylw priodol, ac yn bwysicach oll, sut fydd cyllid yn cael ei ddyrannu ar draws y rhanbarth.

**Yn gywir**

,

**Dylan J Williams**
**Prif Weithredwr**

DRAFT



*Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn y Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith. /*
*You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.*

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
# ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I.
Prif Weithredwr
Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Gofynnwch am - Please ask for:
☎ (01248) 752102

E-Bost-E-mail: DylanWilliams@ynysmon.llyw.cymru

Ein Cyf - Our Ref. DW / VLJ / LlythNWRFPontydd
Eich Cyf - Your Ref.

Prif Gwnstabl Cynorthwyol / Assistant Chief Constable
Chris Allsop

Cadeirydd Fforwm Gwydnwch Gogledd Cymru /
Chair of the North Wales Resilience Forum

Anfonwyd drwy ebost / Sent via email:-
Chris.allsop@northwales.police.uk

20 Rhagfyr / December, 2023

Annwyl Chris

Fe wnaethom gyfarfod yn ddiweddar gyda'r NWC-REPS er mwyn edrych ar faterion sy'n unigryw i Ynys Môn ar ôl iddynt fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio lle codwyd nifer o wahanol bynciau. Tra bo'r mwyafrif o'r rhain wedi eu cyfarch, mae un risg sy'n parhau heb ei liniaru sef yr ymateb i argyfwng petai'r ddwy bont ar gau.

O ystyried y penderfyniad sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru i beidio â buddsoddi mewn trydydd pont a'r posibilrwydd o gau Pont Borth dros dro yn gynnar yn 2024, ystyrir y byddai'n amserol adolygu'r waelodlin bresennol o drefniadau ymateb yr holl asiantaethau perthnasol petai Bont Britannia hefyd yn gorfod cau yn annisgwyl h.y. petai'r ddwy bont ar gau ac argyfwng (neu argyfyngau) yn codi ar yr Ynys.

Rydw i wedi fy hysbysu bod gweithred sydd heb ei chyflawni gan Is-grŵp Logisteg yr LRF i ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddadansoddi'r risg ac edrych ar fesurau lliniaru posibl.

Mae Helen Kilgannon wedi cyfarfod yn ddiweddar ag Ian Jones o NMWTRA, sy'n arwain ar y darn hwn o waith er mwyn sicrhau bod Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd a NWC-REPD yn cael eu cynrychioli ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac yn cael mewnbwn i'r broses. Mae sgyrsiau cychwynnol wedi awgrymu ymgysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn arwain ar y prosiect ond hyd yma mae hyn wedi profi'n heriol ac nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud.

Dear Chris

We recently met with NWC-REPS to look at issues that are unique to the Isle of Anglesey following their attendance at a Partnership and Regeneration Scrutiny Committee where several subjects were raised. Whilst most of these have now been addressed there is one risk that currently remains unmitigated which is the response to an emergency/ies during the closure of both bridges.

Given the decision taken by Welsh Government to not invest in a third crossing and the potential temporary closure of the Menai Bridge in early 2024, it seems that it would be timely to review the current baseline of response arrangements of all relevant agencies if the Britannia Bridge were also to close unexpectedly, i.e. if both bridges were closed and an emergency (or emergencies) were to take place on the Island.

I have been made aware that there is an outstanding action for the Infrastructure and Logistical Sub-Group of the LRF to form a Task and Finish Group to analyse this risk and look at possible mitigation.

Helen Kilgannon has met recently with Ian Jones from NMWTRA, who is leading on this piece of work to ensure the Isle of Anglesey County Council, Gwynedd Council, and NWC-REPS are represented on the Task and Finish Group to input into the process. Early conversations have suggested engagement with WG to lead on the project but to date this has proved challenging, and no progress has been made.

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn y Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith. / You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.

Gwefan: www.ynysmon.llyw.cymru - Website: www.anglesey.gov.wales

Credafod gwaith i edrych ar y risg hwn wedi'i ymgymryd ag ef gan bartneriaid ehangach fel rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer Wylfa Newydd, fodd bynnag roedd hyn beth amser yn ôl ac fe allai newidiadau staffio fod wedi arwain at fwlch o ran gwybodaeth cysylltiedig â'r risg.

I believe that work to look at this risk was undertaken by the wider partners as part of the planning for Wylfa Newydd however this was some time ago and staff changes may well have led to gap in intelligence and information regarding the risk.

Byddwn yn gwerthfawrogi eich cymorth er mwyn sicrhau bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu yn fuan yn 2024 er mwyn sicrhau bod gwaelodlin, trefniadau perthnasol ac unrhyw drefniadau wrth gefn priodol yn cael eu hadnabod cyn i waith ddechrau ar Bont Borth a hefyd er mwyn rhoi ystyriaeth i drefniadau pentyrru lorïau ar yr Ynys a'r tir mawr.

I would appreciate your support in ensuring this Task and Finish Group is established early in 2024 to ensure the baseline, necessary arrangements, and any suitable contingencies are identified prior to the Menai Bridge works commencing and also consideration for the provision for lorry stacking both on and off the Island.

Yn gywir / Yours sincerely,

**DYLAN J. WILLIAMS**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**

**Copy at / Copy to:-**

Susan Jones - Rheolwr Gweithredol (Tim Arweinyddiaeth) / Executive Manager (Leadership Team)
Helen Kilgannon – Rheolwr Rhanbarthol – Regional Manager
Jon Zalot – Swyddog Cynllunio Argyfwng – Emergency Planning Officer
Anette Bailey – Uwch Swyddog Cynllunio Argyfwng – Senior Emergency Planning Officer

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I.
Prif Weithredwr
Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Gofynnwch am - Please ask for:
☎ (01248) 752102

E-Bost-E-mail: DylanWilliams@ynysmon.llyw.cymru

Ein Cyf - Our Ref. VLJ / DW/ AndrewSlade
Eich Cyf - Your Ref.

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol Yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth / Director General Economy, Energy and Transport

Anfonwyd drwy ebost / Sent via email:-
andrew.slade@gov.wales

10 Chwefror / February, 2025

Annwyl Mr Slade

Yn ystod cyfarfod o Bwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y Cyngor ar 15/01/25, cyflwynwyd yr adroddiad cynnydd blynyddol ar Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (NWC-REPS) i'r Aelodau.

Nododd Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini'r cynnydd da a wnaed ers cyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2023, lle codwyd pryderon ynghylch gwydnwch y pontydd. Er iddynt nodi'r cynnydd, mynegodd y Pwyllgor bryderon parhaus ynghylch gwydnwch y ddwy bont, ac effaith Cerbydau Nwyddau Trwm (HGVs) ar gymunedau lleol. Mae Aelodau wedi gofyn i mi ysgrifennu atoch mewn perthynas â pharatoi cynllun stacio Cerbydau Nwyddau Trwm cyfredol ar gyfer Ynys Môn. Cyfeiriaf at fy llythyr dyddiedig 20 Rhagfyr 2023 at y Prif Gwnstabl Cynorthwyol (copi wedi'i atodi).

Llwyddwyd i weithredu'r Fframwaith ar gyfer y pontydd yn llwyddiannus ar ôl gorfod cau Pont Britannia ar dri achlysur gwahanol:

- 07/12/24 – Gwyntoedd Cryfion Storm Darragh
- 12/12/24 – Damwain yn cynnwys Cerbyd Nwyddau Trwm ar y bont
- 24/01/25 – Gwyntoedd Cryfion Storm Eowyn.

Dear Mr Slade

At the meeting of the Council's Corporate Scrutiny Committee on 15/01/25, Members were presented with the Annual progress report on the North Wales Council's Emergency Planning Service's (NWC-REPS).

Members of the Scrutiny Committee noted the positive progress made since the meeting of the Committee in December 2023 where concerns were raised regarding the resilience of the bridges. Despite noting the progress, the Committee expressed continuing concerns regarding the resilience of the bridges and the effects that HGVs are having upon local communities. Members have asked me to write to you expedite the production of a current up to date HGV stacking plan for Anglesey. I refer to my letter dated 20th December 2023 to the Assistant Chief Constable (copy attached).

The Framework for the Bridges has been successfully implemented following the closure of the Britannia Bridge on three separate occasions:

- 07/12/24 - Storm Darragh High Winds
- 12/12/24 – HGV Bridge collision
- 24/01/25 – Storm Eowyn High Winds.

Croeso i chi ddelio gyda'r Cygnor yn y Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith. / You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both language.

Gwefan: www.ynysmon.llyw.cymru - Website: www.anglesey.gov.wales

Achoswyd niwed economaidd sylweddol yn sgil cau Porthladd Caergybi ar ôl i angorfa ffender ddisgyn yn ystod Storm Darragh, gyda Cherbydau Nwyddau Trwm yn parcio mewn cilfannau, ystadau diwydiannol ac ar strydoedd preswyl, oedd yn amlygu'r diffyg cyfleusterau ar gyfer cerbydau o'r fath yng Nghaergybi - yr ail gyfleuster gyrru i mewn ac allan mwyaf yn y DU. Ar hyn o bryd, mae trefniadau ar gyfer cau pont, neu borthladd, yn cynnwys cyfeirio Cerbydau Nwyddau Trwm i blot 9 ym Mharc Cybi, sy'n cynnig capasiti ar gyfer llai na 50 o gerbydau cyffelyb, ac rwyf o'r farn nad yw hynny'n ddigonol ar gyfer nifer y Cerbydau Nwyddau Trwm sy'n cyrraedd y porthladd ac/neu'r bont.

The closure of Holyhead Port, due to the collapse of a fender berth during Storm Darragh, resulted in significant economic damage with HGVs parking in lay-by, industrial estates and residential streets, which highlighted the lack of HGV facilities at Holyhead – the second largest roll-on/roll-off facility in the UK. Current arrangements for a bridge or port closure involve directing HGVs to plot 9 at Parc Cybi, which offers a capacity for less than 50 HGVs which I would suggest would be inadequate for the numbers of HGV arriving at the port and/or at the bridge.

Mynegodd Aelodau bryderon hefyd yn ymwneud ag absenoldeb cynllun rheoli cyfredol er mwyn diogelu gwydnwch Pont Menai pe byddai angen cau Pont Britannia oherwydd effeithiau difrifol colli yr unig gysylltiad ffordd.

Members also expressed concerns relating to the absence of an up to date management plan to protect the resilience of the Menai Bridge during any closure of the Britannia Bridge due to the serious implications of losing the only highway link.

Byddwn yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth i sicrhau bod mesurau ar gyfer stacio Cerbydau Nwyddau Trwm a gwarchod gwydnwch Pont Menai yn cael eu cwblhau, eu mabwysiadu, a bod mesurau sydd wedi'u profi yn cael ystyriaeth llawn.

I would appreciate your support in ensuring that both HGV stacking and Menai Bridge resilience plans are finalised, adopted, and tested measures are given full consideration.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

I look forward to your response.

Yn gywir / Yours sincerely

**Dylan J. Williams**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**

**Copi at / Copy to:-**
Cadeirydd y Fforwm Gwydnwch Gogledd Cymru / Chair of the Local Resilience Forum – Chris Allsop - Prif Gwnstabl Cynorthwyol / Assistant Chief Constable CHRIS.ALLSOP@northwales.police.uk
Neal Cockerton, Prif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council - Neal.cockerton@flintshire.gov.uk
Helen Kilgannon - helen.kilgannon@nwc-reps.org.uk Jon Zalot jon.zalot@nwc-reps.org.uk – CGC – GCAR NWC-REPS

# Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd

## Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn dilyn Storm

## Tystiolaeth Ysgrifenedig Cyngor Sir Ynys Môn

**Chwefror 2025**

**Statws: Swyddogol**

## 1.0 Cyflwyniad i'r Dystiolaeth

1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymchwiliad a gynhelir gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd i Ddifrod a Chau Porthladd Caergybi yn dilyn Storm.

1.2 Dylid ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig hon ar y cyd â'r dystiolaeth lafar a gyflwynir gan Bennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd y Cyngor i'r Pwyllgor ar 6 Mawrth 2025.

1.3 Mae'r Cyngor yn nodi Cylch Gorchwyl yr ymchwiliad. Bydd ein tystiolaeth yn canolbwyntio ar effaith cau'r Porthladd, yn ogystal â maint ac effeithiolrwydd y camau sy'n cael eu cymryd i leihau'r effaith.

## 2.0 Pwysigrwydd Economaidd-gymdeithasol Porthladd Caergybi

2.1 Ni ellir tanbrisio pa mor bwysig yw Porthladd Caergybi i'r economi leol ac economi Cymru. Dyma'r ail borthladd gyrru i mewn ac allan mwyaf yn y DU (ar ôl Dover). Caergybi yw'r prif borthladd ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr ar y môr i Iwerddon ac, fel rhan o'r Llwybr E22 Ewropeaidd, mae'n darparu cyswllt allweddol yn y "bont dir" rhwng Iwerddon a gweddill Ewrop. Mae'n parhau i fod y llwybr cyflymaf dros Fôr Iwerddon er bod nifer y llongau sy'n hwylio'n uniongyrchol o Rosslare i gyfandir Ewrop wedi cynyddu. Mae bron i 60% o nwyddau a gludir ar lorïau sy'n teithio rhwng Gweriniaeth Iwerddon ac Ewrop yn pasio trwy Borthladd Caergybi. Mae'r Porthladd hefyd yn cludo tri chwarter o'r teithwyr rhwng Cymru a Gweriniaeth Iwerddon[1].

2.2 Yn 2019, roedd traffig blynyddol y porthladd (cyfuniad o gerbydau nwyddau a cheir yn cludo teithwyr) tua 953,000 o gerbydau (pob math). Disgynnodd nifer y cerbydau wedi hynny, yn bennaf o ganlyniad i effaith ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, yn ogystal â'r pandemig Covid-19. Er hynny, gwelwyd 38% o adferiad rhwng 2021 a 2022.

2.3 Cynhaliwyd astudiaeth ar effaith economaidd y Porthladd gan Royal Haskoning ar ran Llywodraeth Cymru yn 2021[2]. Nododd bod:

a. Y Porthladd yn cefnogi tua 670 o swyddi lleol (tua 580 o swyddi Cyfystyr ag Amser llawn (CALl)).

b. Y swyddi sydd ar gael yn y Porthladd yn cyfateb i 21% o gyfanswm y swyddi sydd ar gael yng Nghaergybi a'r cyffiniau, a 3% o farchnad lafur yr Ynys.

c. Porthladd Caergybi yn cyfrannu tua £78.5 miliwn y flwyddyn i'r economi leol (6.9% o werth ychwanegol gros (GVA) yr Ynys yn 2019).

d. Y sector cludiant a storio oedd y pedwerydd sector mwyaf o ran cyflogaeth yng Nghaergybi, gan ddarparu 11.3% o swyddi. Mae'r gyfran hon yn sylweddol uwch nag ar gyfer Ynys Môn (4.3%) a Chymru (3.3%).

e. Amcangyfrifwyd bod effaith economaidd anuniongyrchol y Porthladd a'i gadwyn gyflenwi rhwng £25.9 miliwn a £28.4 miliwn. Amcangyfrifwyd bod rhwng 990 a 1370 (neu 860 a 1190 CALL) o swyddi yn cael eu cymell gan y Porthladd.

---

[1] Adroddiad CSYM 'Gwella dibynadwyedd a gwytnwch ar draws y Fenai. Sylfaen dystiolaeth fanwl. Mehefin 2023

[2] Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru 'Astudiaeth Strategol o Effaith Economaidd Porthladd Caergybi' Gorffennaf 2021

## 3.0 Storm Darragh

3.1 Roedd Storm Darragh yn seiclon all-drofannol a ffurfiodd ar 5 Rhagfyr 2024 cyn gwasgaru ar 9 Rhagfyr 2024. Daeth y storm â gwyntoedd o dros 90mya gan greu perygl i fywyd.

3.2 Effeithiodd y storm ar yr Ynys ar ddydd Sadwrn, 7 Rhagfyr 2024 a dydd Sul, 8 Rhagfyr 2024.

3.3 Cafodd y storm effaith sylweddol ar Ynys Môn, gan gau ffyrdd, difrodi strwythurau ac eiddo a thorri'r cyflenwad trydan. Bu'n rhaid cau Pont Britannia oherwydd y storm hefyd (sef un o ddau gysylltiad yn unig ar draws y Fenai o Fôn ) a chau Porthladd Caergybi.

3.4 Yn ystod y cyfnod hwn, cydweithiodd y Cyngor â phartneriaid, ymatebodd i broblemau ac effeithiau a sicrhaodd gyfathrebu a rhannu gwybodaeth effeithiol gyda thrigolion lleol. Mae'r ffeithlun isod yn crynhoi gweithgareddau rhannu gwybodaeth y Cyngor rhwng 4 a 9 Rhagfyr.




3.5 Caeodd y Porthladd yn gyfan gwbl i draffig llongau rhwng 7 Rhagfyr 2024 a 15 Ionawr 2025 (cyfnod o 40 diwrnod).

3.6 Yn wreiddiol, roedd disgwyl i'r porthladd fod ar gau am gyfnod byr ac oherwydd hynny roedd loriau ac ôl-gerbydau i'w gweld yn parcio ym mhob rhan o Gaergybi. Ond, unwaith y daeth yn amlwg y byddai'r porthladd ar gau yn hirach na'r disgwyl, ailgyfeiriwyd loriau gan eu gweithredwyr i lwybrau eraill ar hyd arfordir gorllewinol y Deyrnas Unedig.

3.7 Yn ystod y cyfnod y bu'r porthladd ar gau ym mis Rhagfyr (7 – 31 Rhagfyr), gwelwyd 22,300 llai o symudiadau gan loriau ar yr A55 a'r A5 (gostyngiad o 12.6% mewn loriau'n teithio tua'r dwyrain a 13.7% tua'r gorllewin). Pan oedd y porthladd ar gau ym mis Ionawr (1 – 15 Ionawr), gwelwyd 16,100 llai o loriau (7.6% yn teithio tua'r dwyrain a 9.9% tua'r gorllewin).

3.8 Ail-agorodd y porthladd yn rhannol ar 16 Ionawr gydag un lanfa'n weithredol.

## 4.0 Ymateb y Cyngor i Gau Porthladd Caergybi

4.1 Roedd y Cyngor yn rhan o ymateb brys amlasiantaethol, gan gydweithio trwy strwythurau ffurfiol Grŵp Cydlynu Strategol a Thactegol. Roedd hyn yn caniatáu i'r Cyngor gyfathrebu, rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau effeithiol ac amserol. Nid y Cyngor oedd y corff oedd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau mewn perthynas â Phorthladd Caergybi, ond roedd yn rhan o'r trefniadau ymateb er mwyn rheoli'r effeithiau (h.y. lorïau'n methu teithio ar draws Fôr Iwerddon). Bu i'r Cyngor ymgysylltu â chydweithio ag Awdurdod y Porthladd, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill drwy gydol y cyfnod yr oedd y porthladd ar gau, er mwyn rheoli'r effeithiau a sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda thrigolion.

4.2 Er mwyn deall effaith y cau ar fusnesau Ynys Môn a Chymru, lansiodd y Cyngor arolwg ar-lein ar 8 Ionawr. Roedd yr arolwg ar agor tan 31 Ionawr.

4.3 Derbyniwyd cyfanswm o 62 ymateb gan nifer o sectorau:

| Sector | Nifer ymatebion |
|---|---|
| Lletygarwch | 24 |
| Manwerthu | 16 |
| Harddwch | 6 |
| Gwasanaethau cefnogi logisteg | 5 |
| Arall | 5 |
| Logisteg | 3 |

*Derbyniwyd dau ymateb o Orllewin Canolbarth Lloegr ac un ymateb gan fusnes a oedd wedi cau am y tymor. Nid yw eu hymatebion wedi eu cynnwys yn y ffigyrau.*

4.4 Mae dadansoddiad ystadegol o'r ymatebion yn dangos bod:

a. 92% o ymatebwyr o Gaergybi/Ynys Cybi.

b. 54% o ymatebwyr yn datgan fod swyddi mewn perygl oherwydd bod y Porthladd ar gau.

c. O'r swyddi mewn perygl, roedd 74% yn cynnwys swyddi parhaol, a dim ond 20% oedd yn swyddi contractau dim oriau.

d. 95% yn teimlo y byddai gostwng nifer y llongau oedd yn hwylio o 16 Ionawr yn effeithio ar eu busnesau.

4.5 Dangosodd yr ymatebion ansoddol bod:

a. Busnesau sy'n cefnogi darparwyr logisteg (h.y. mecanyddion a gwestai) ymysg y rhai a brofodd yr effeithiau ariannol mwyaf, gyda cholledion o ddegau o filoedd o bunnoedd.

b. Mae nifer o fusnesau yng Nghaergybi'n ddibynnol ar ymwelwyr yn gysylltiedig â thraffig llongau (teithwyr a chriw).

c. Mae'r gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr wedi effeithio ar ystod eang o fusnesau.

d. Roedd nifer o fusnesau'n dweud fod busnes wedi gostwng 90%.

e. Mae pryderon yn bodoli o hyd y bydd gostwng nifer y llongau sy'n hwylio'n effeithio ar incwm yn y dyfodol.

f. Mae pryderon y bydd llai o hyder yn hyfywedd a gwytnwch y Porthladd.

4.6 Darparwyd y dyfyniadau uniongyrchol a ganlyn gan ymatebwyr:

a. Mae garej sy'n gwasanaethu lorïau ar yr Ynys yn amcangyfrif *"y gallai'r effaith ariannol fod rhwng £50,000 a £100,000".*

*b.* Dywedodd asiantaeth sy'n darparu gyrwyr loriau, *"mis Rhagfyr yw'r adeg brysuraf o'r flwyddyn i'n busnes ac rydym yn cludo nwyddau i bob rhan o'r DU. Gan fod y Porthladd ar gau mae'r holl swyddi gwag o gwmpas Ynys Môn wedi cael eu hadleoli i ardaloedd eraill o'r DU, gan arwain at golli swyddi. Ni wnaiff cwmnïau dalu am y daith 4 awr ddwy ffordd a 200 milltir o Gaergybi i Benbedw, felly maent wedi symud eu lorïau i borthladdoedd eraill".*

c. Dywedodd perchennog gwesty mawr, *"roedd cyfraddau meddiannu ystafelloedd wedi disgyn o'r 70/80% sy'n arferol yr amser hwn o'r flwyddyn i 15-20%, gan olygu bod staff cadw tŷ, staff gegin a staff blaen tŷ wedi colli nifer fawr o oriau gwaith".*

*d.* Dywedodd manwerthwr bychan arall, *"rydym yn dibynnu ar yr ymwelwyr sy'n gysylltiedig â'r porthladd. Ers i'r porthladd gau mae ein busnes wedi gostwng yn sylweddol, tua 60 i 70%. Nid yn unig gan deithwyr (ond) gan bobl leol sy'n gweithio yn y porthladd (hefyd)".*

e. Gwelodd manwerthwr sy'n arbenigo mewn gwerthu hamperi i'w rhoi fel anrhegion 95% o ostyngiad mewn incwm.

*f.* Dywedodd caffi lleol, *"Gyda llai o ymwelwyr yn dod i mewn trwy ddrysau'r caffi, rydym yn gweini llai o bobl ond mae'n rhaid i ni gael staff yn y caffi bob dydd er gwaethaf hynny, ac yn y pendraw mae llai o ymwelwyr yn golygu llai o incwm. Mae hyn yn risg anferth i sefydlogrwydd swyddi gan fod y sector lletygarwch yn wynebu cyfnod anodd yn barod oherwydd bod biliau, cyflogau staff a chostau cyflenwyr ac ati yn anghyffredin o uchel yn barod, yn enwedig ym mis Ionawr. Rydym yn dibynnu ar ymwelwyr achlysurol sy'n dod o'r porthladd i'n cynnal yn ystod y misoedd tawelach. Roedd hi'n llawer iawn tawelach pan oedd y porthladd ar gau. Mae'n bendant wedi peryglu swyddi".*

4.7 Roedd data ymwelwyr, a ddarparwyd gan y Rhaglen SMART Cymru, yn dangos bod nifer yr ymwelwyr â chanol tref Caergybi wedi gostwng yn sylweddol. Yn ystod Rhagfyr 2024 ac Ionawr 2025 roedd gostyngiad o 36% a 33%, yn y drefn honno, yn nifer yr ymwelwyr o gymharu â'r un cyfnod yn 2023 a 2024.

4.8 Rhwng 6 Rhagfyr 2024 ac 15 Ionawr 2025 roedd cyfanswm ymwelwyr â'r stryd fawr yn 52,215 - 37% yn llai o gymharu â'r 83,445 o ymwelwyr a gofnodwyd yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn cynt.

4.9 Mae'r gostyngiad hwn yn cyd-fynd â'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn yr ymatebion i arolwg busnesau'r Cyngor.

**5.0 Crynodeb o Brif Sylwadau'r Cyngor mewn Perthynas â'r Ymchwiliad**

5.1 Mae gwerth economaidd a chymdeithasol Porthladd Caergybi i Ynys Môn yn sylweddol. Mae cysylltiad annatod rhyngddo â lles cymdeithasol, economaidd a chymunedol lleol, yn ogystal â hunaniaeth a threftadaeth ddiwylliannol. Mae Caergybi yn *dref porthladd*.

5.2 Dyma'r ail borthladd gyrru i mewn ac allan mwyaf yn y DU ac mae'n parhau i fod y prif borthladd a'r llwybr cyflymaf ar gyfer nwyddau a theithwyr i ac o Iwerddon, ac mae'n cludo tua 1,500,000 o deithwyr y flwyddyn a thua 4,000,000 tunnell o nwyddau.

5.3 Mae'r Porthladd yn gyflogwr allweddol ar Ynys Môn ac mae'n cefnogi cannoedd o swyddi o ansawdd. Mae nifer o fusnesau'n elwa'n uniongyrchol ac anuniongyrchol o'r porthladd.

5.4 Yn y tymor byr, mae'n rhaid blaenoriaethu sicrhau fod y lanfa a ddifrodwyd yn ailagor yn ddiogel – yn ogystal â'r angen i ddarparu cefnogaeth i fusnesau lleol y mae cau'r Porthladd wedi effeithio arnynt.

5.5 Cred y Cyngor y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ariannol ychwanegol a mesurau ymarferol i gynorthwyo i leihau'r effeithiau negyddol ar fusnesau lleol (gan gynnwys cludiant, logisteg, manwerthu a lletygarwch).

5.6 Mae sicrhau gwytnwch a sefydlogrwydd y Porthladd yn y tymor hir yn hanfodol o ran twf economaidd-gymdeithasol a masnach. Mae'r Porthladd yn hanfodol i fywiogrwydd economi Ynys Môn, Gogledd Cymru, Cymru, y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

5.7 Mae gweithrediad effeithiol y Porthladd hefyd yn dibynnu'n uniongyrchol ar wytnwch a dibynadwyedd y pontydd dros y Fenai. Mae perthynas symbiotig yn bodoli rhwng yr isadeiledd, lle mae problem mewn un lleoliad yn effeithio ar y llall, yn ogystal â chymunedau a busnesau cyfagos. Os na fydd gwytnwch yn cael ei wella yna bydd y risg o fethiant yn parhau i gynyddu gydag amser.

5.8 Mae problemau canfyddedig a gwirioneddol o ran gwytnwch a chysylltedd yn cael effaith niweidiol ar allu'r Ynys i ddenu buddsoddiad economaidd. Mae hyn hefyd yn effeithio ar y ddelwedd a'r proffil.

5.9 Bydd y porthladd yn hanfodol bwysig i lwyddiant Porthladd Rhydd Ynys Môn a'r buddion cadarnhaol sylweddol y gallai eu creu.

5.10 Mae'r Cyngor yn croesawu cyhoeddiad Gweinidog y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru ar 7 Ionawr 2025 ynglŷn â sefydlu Grŵp Tasg i sicrhau sefydlogrwydd hirdymor ar gyfer y Porthladd. Rydym yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o bwrpas a chwmpas y Grŵp Tasg a sut y bydd yn darparu ymyraethau gwirioneddol i sicrhau dyfodol y Porthladd.

5.11 Mae cau'r Porthladd oherwydd Storm Darragh wedi dangos hefyd bod diffyg data economaidd cyfredol ac ystyrlon. Asesiad o'r effaith economaidd newydd i ddarparu gwybodaeth ddibynadwy a chadarn er mwyn sicrhau fod penderfyniadau gwybodus, amserol a phriodol yn cael eu gwneud.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **10 Ebrill, 2025** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2025/26** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Douglas Massie Fowlie** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno fersiwn gyfredol y blaen raglen waith ar gyfer 2025/26. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith

ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2025/26 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati.

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| --- |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
| --- |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2025/26 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| --- |
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

# RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2025 → EBRILL, 2026
**[Fersiwn dyddiedig 06/03/25]**

**Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd**
Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2025 ( 20/05/2025)** | **Mai, 2025 (20/05/2025)** |
| Ethol Cadeirydd: 2025/26 | Ethol Cadeirydd: 2025/26 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2025/26 | Ethol Is-gadeirydd: 2025/26 |
| | |
| **Mehefin, 2025 (17/06/2025) – Ch4** | **Mehefin, 2025 (12/06/2025) – Addysg / Y Gymraeg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2024/25 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2024/25<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2024/25 → Mesur Cynnydd |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2025/26 | Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU [Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd] |
| Hunan Asesiad Corfforaethol Drafft 2025 | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Dim cyfarfod wedi'i raglennu** | **Gorffennaf, 2025 (15/07/2025) - Gwasanaethau Brys** |
| | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru / Heddlu Gogledd Cymru |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn: 2024/25 |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Medi, 2025 (17/09/2025) – Ch1** | **Medi, 2025 (16/09/2025) – Opsiynau Addysg ôl-16** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2025/26 | Grŵp Llandrillo Menai |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2024/25 | Prifysgol Bangor |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Hydref, 2025 (15/10/2025)** | **Hydref, 2025 (14/10/2025) – Addysg** |
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2024/25 | Adroddiad Blynyddol Safonau mewn Ysgolion 2024/25 |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2024/25 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Argymhellion Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini: Gosod Tai'r Cyngor – diweddariad ar gynnydd | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Uchelgais Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2024/25<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2025/26 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| | **Tachwedd, 2025 (13/11/2025) – Trosedd ac Anrhefn** |
| | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2024/25 |
| | Menter Môn |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Tachwedd, 2025 (18/11/2025) - Ch2** | **Tachwedd, 2025 (26/11/2025) – Iechyd** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2025/26 | Archwilio Cymru: Adroddiad Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru-mesur cynnydd |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | |
| | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Ionawr, 2026 (21/01/2026) – Cyllideb 2026/27 (bore)** | **Ionawr, 2026 (20/01/2026)** |
| Sefydlu Cyllideb 2026/27 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU [Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd] |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Ionawr, 2026 (21/01/2026) (prynhawn)** | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2: 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | |
| | |
| **Chwefror, 2026 (18/02/2026) – Cyllideb 2026/27** | **Chwefror, 2026 (12/02/2026) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2026/27 – refeniw a chyfalaf | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| | Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (i'w gadarnhau) |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Mawrth, 2026 (18/03/2026) - Ch3** | **Mawrth, 2026 (17/03/2026)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2025/26 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2024/25 |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2026/2056 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn – mesur cynnydd |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch3:2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Ebrill, 2026 (22/04/2026)** | **Ebrill, 2026 (21/04/2026)** |
| | Cyngor ar Bopeth Ynys Môn |
| | Medrwn Môn |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2024/25 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu**

| **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
|---|---|
| Cyfrifiad 2021 | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Rhaglen Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Chryfhau'r Gymraeg | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2024-2034– Ystad Mân-ddaliadau | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/2023) |
| Adroddiad Cynnydd Ch4: 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru | Ardoll Twristiaeth Lleol i Gymru |
| Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch | Cynllun Strategol Tuag at Sero Net |
| Cynllun Strategol Chwarae | Trefniadau Gwasanaeth Gwella Ysgolion |
| Cynllun Strategol Digidol Ysgolion | Digartrefedd Ynys Môn |
| Canolfan Addysg y Bont (Gwersi a Ddysgwyd) | |